



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder




Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru

Cyhoeddir yr ymateb hwn ar 11 Chwefror 2016

Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymateb ar gael yn: www.gov.uk/moj





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Ymateb i'r cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru

**Ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM,
rhan o'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn www.gov.uk/moj**

Cynnwys

Rhagymadrodd a manylion cyswllt	3
Rhagair	4
Cefndir	5
Crynodeb o'r ymatebion	7
Penderfyniad	9
Ymatebion i gynigion unigol	19
Egwyddorion ymgynghori	64
Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr	65

Rhagymadrodd a manylion cyswllt

Adroddiad yn dilyn yr ymgynghori ar y ddogfen 'Cynnig ar ddarpariaeth gwasanaethau'r llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru' yw'r ddogfen hon.

Bydd yn ymdrin â:

- chefnidir yr ymgynghoriad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- ymateb manwl i'r pwyntiau a godwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn

Mae copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori i'w cael drwy gysylltu â **HMCTS Consultation** yn y cyfeiriad isod:

HM Courts & Tribunals Service
Post Point 1.13, 1st Floor
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

Rhif ffôn: 0161 240 5021

E-bost: estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Mae fersiwn Saesneg o'r ymateb hwn ac Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg ar gael yn **www.gov.uk/moj**

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn **www.gov.uk/moj**

Gellir gwneud cais i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynglŷn â'r [broses](#) ymgynghori, dylech gysylltu â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair

Ar 16 Gorffennaf 2015, cyhoeddwyd yr ymgynghoriad cenedlaethol ar ddarpariaeth ystad y llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a gwnaethpwyd cynigion i gau 11 llys (a chyfuno dau lys) yng Nghymru. Wrth weithio gyda'r farnwriaeth, rydym am ddiwygio ein gwasanaethau fel eu bod yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd yn well yn y byd modern sydd ohoni. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig gwneud newidiadau i'n hystad lle nad yw'n bosib darparu gwasanaeth modern o'n hadeiladau bellach oherwydd cyfleusterau gwael, ac/neu os ydynt yn cael eu tanddefnyddio a/neu lle nad yw'r safleoedd yn darparu gwerth am arian.

Daeth cyfanswm o 152 ymateb i'r ymgynghoriad i law yng Nghymru. Fel Cyfarwyddwr Cyflawni sy'n gyfrifol am reoli gweithrediadau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yng Nghymru, rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i wneud sylwadau ar ein cynigion a'n helpu i ddod i'r casgliadau gorau. Mae'n amlwg o'r ymatebion bod y gymdeithas yn parhau i weld gwerth yn y gwasanaethau a ddarperir gan ein llysoedd a'n triwlynlysoedd, a'i fod yn bwysig i gynnal mynediad at gyfiawnder mewn modd effeithiol.

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau 10 llys a thriwlynlys yng Nghymru a chadw un ar agor. Bydd pum safle yn cau fel y cynigwyd yn yr ymgynghoriad, gyda phump arall yn digwydd ond gyda newidiadau i'r cynigion gwreiddiol. Mae'r newidiadau hyn, nifer a awgrymwyd gan ymatebwyr, yn cynnwys dod o hyd i leoliadau amgen sy'n addas, megis defnyddio adeiladau dinesig lleol, neu safleoedd eraill o fewn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM i'r rhai a gynigwyd yn wreiddiol. Ceir manylion pellach ar sail llysoedd unigol yn yr adran crynodeb o'r ymatebion.

Bydd y penderfyniad i gau llys neu driwlynlys yn golygu y bydd rhaid i rai defnyddwyr y llys deithio'n bellach i ddod i'r llys. Rydym wedi addasu rhai o'n cynlluniau gan ddefnyddio'r wybodaeth leol a ddarparwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, i leihau'r effaith o ran amseroedd teithio i ddefnyddwyr y llys a darparu gwerth am arian. Byddwn yn parhau i archwilio a datblygu ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at ein gwasanaethau i wella'r mynediad at gyfiawnder.

Mynegodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad bryder ynghylch effaith y newidiadau i'n hystad ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg mewn llysoedd a thriwlynlysoedd, ac ynglŷn â'r effaith ehangach posibl ar gymunedau Cymraeg. Rydym yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd, ac yn parhau'n ymrwymedig i drin yr iaith Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal. Byddwn yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn ymateb i anghenion ein defnyddwyr yn yr un modd ag y gwnaethom cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad. Mae Asesiad o Effaith ar yr iaith Gymraeg wedi'i gyhoeddi gyda'r ddogfen ymateb hon.

Rydym yn ymwybodol o'r heriau yng Nghymru mewn perthynas â natur wledig llawer o'r wlad, a chysylltiadau trafnidiaeth gwael rhwng canolfannau poblogaeth o bryd i'w gilydd. Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda chymunedau yn yr ardaloedd lle mae trafnidiaeth cyhoeddus gwael yn achosi pryder o ran cael mynediad at gyfiawnder, i chwilio am ddarpariaethau amgen i ddefnyddwyr sy'n dod i'r llys.

Wrth reswm, bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y staff a'r farnwriaeth, sy'n gweithio'n galed i weinyddu ein system cyfiawnder. Byddaf yn gweithio'n agos gyda'r farnwriaeth wrth weithredu'r newidiadau hyn. Hefyd, byddaf yn cefnogi ein staff drwy'r newidiadau hyn, a byddwn yn gweithredu'r trefniadau newydd yn deg ac agored mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur Adrannol Rhanbarthol.

Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu'r newidiadau ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Luigi Strinati
Cyfarwyddwr Cyflawni
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM Cymru

Cefndir

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori '*Cynigion ar ddarpariaeth gwasanaethau'r llysoedd a'r triwilysoedd yng Nghymru*' ar 16 Gorffennaf 2015. Roedd yn gwahodd sylwadau gan unrhyw un â diddordeb mewn cyfiawnder lleol i sicrhau bod y llysoedd a'r triwilysoedd yn parhau i fod yn gydnaws â'r llwyth gwaith; bod cymunedau yn parhau i gael mynediad at adeiladau llys a thriwilysoedd pan fo'r angen i fod yn bresennol, neu drwy dulliau eraill; a bod yr achosion yn cael eu gwrando mewn adeiladau â chyfleusterau addas.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dylid cau'r llysoedd a'r triwilysoedd canlynol: ¹

- Llysoedd Barn Aberhonddu
- Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr
- Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Triwilysoedd a Phroffiant
- Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)
- Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau
- Llys Ynadon Caerdybi
- Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni
- Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot
- Llys Ynadon Pontypridd
- Llys Ynadon Prestatyn
- Canolfan Wrandawiadau a Thriwilysoedd Wrecsam (Rhyd Broughton)

Roedd y cynigion hefyd yn cynnwys na fyddai'r Llys y Goron yn eistedd yn y ddau safle canlynol mwyach, a byddai'r adeiladau'n cael eu cadw ar gyfer gwaith sifil, teulu, triwilysoedd ac ynadon:

- Llys y Goron yn Hwlfordd
- Llys y Goron yn y Trallwng

¹ Mae cyfeiriadau yn y ddogfen hon at lysoedd ynadon, llysoedd sirol, llys y goron a llysoedd cyfun yn cyfeirio at adeiladau (strwythur unigol sy'n darparu ystafelloedd gwrandawiadau ar gyfer cynnal achosion troseddol, sifil, teulu a thriwilysoedd) lle cynhelir y gweithgaredd hwnnw mewn lleoliad penodol. Yn fanwl gywir, mae deddfwriaeth yn darparu ar gyfer un llys y goron, un llys sirol ac un llys teulu.

Cyfuno

I roi trosolwg i'r defnyddwyr ar bob newid arfaethedig i'r ystad, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ym mhle y mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn bwriadu cyfuno llysoedd a thribiwnlysoedd o fewn yr un dref neu ddinas. Rhoddir gwybod i randdeiliaid lleol ynglŷn â'r newidiadau hyn pan fyddant yn digwydd.

Cyfuniad yw pan mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn symud gwaith i ganiatáu awdurdodaethau i weithredu mewn llai o safleoedd o fewn ardal leol. Mae hyn yn caniatáu cau adeilad neu adeiladau tra'n cadw awdurdodaethau lleol, gydag effaith gyfyngedig ar ddarparu gwasanaethau. Arweinwyr gweithredol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM sy'n rheoli cyfuniadau fel rhan o redeg y busnes yn y ffordd arferol.

Roedd y ddau gyfuniad a gynigwyd yng Nghymru fel a ganlyn:

- **Cyfuno Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon o fewn Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon**

Mae ymchwil yn cael ei wneud ar hyn o bryd i sefydlu pa waith galluogi sy'n angenrheidiol gan y bydd angen adeiladu pedair ystafell llys sifil, teulu a thribiwnlys yng Nghaernarfon.

- **Cyfuno'r Llys y Goron yn Abertawe (Neuadd y Ddinas) o fewn y Llys y Goron yn Abertawe (San Helen)**

Cyflwynwyd cais am newid i ddiogomisiynu'r TG, er nad oes dyddiad wedi'i bennu ar gyfer cwblhau'r integreiddiad.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 8 Hydref 2015 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion, gan gynnwys sut y dylanwadodd y broses ymgynghori ar ffurf derfynol/datblygiad pellach y polisi/cynnig yr ymgynghorwyd arno.

Diweddarwyd yr Asesiad o'r Effaith a oedd yn mynd law yn llaw gyda'r ymgynghoriad er mwyn ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae copi ynghlwm o'r Asesiad o'r Effaith wedi ei ddiweddarau.

Ceir rhestr o ymatebwyr yn Atodiad A.

Crynodeb o'r ymatebion

Crynodeb o'r ymatebion ar y cynigion ar ddarpariaeth gwasanaethau'r llysoedd a thriwilysoedd yng Nghymru.

Bu i'r rhan fwyaf o ymgynghorion ymateb i'r cynigion ar llysoedd penodol yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori cenedlaethol yn gyffredinol.

Daeth cyfanswm o 152 ymateb unigol i bapur ymgynghori Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM i law. O'r rhain roedd:

- 44 gan gorff sector cyhoeddus arall
- 23 gan ynadon
- 21 gan ddefnyddwyr proffesiynol
- 19 gan aelodau o'r cyhoedd
- 13 gan aelodau o'r farnwriaeth
- 11 gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- wyth gan aelodau o'r staff
- chwech gan bartneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol
- pedwar gan yr undeb neu grŵp staff
- tri gan bobl eraill

Gwnaeth rai o'r ymatebwyr sylwadau ar fwy nag un cynnig, ac felly ystyriwyd eu sylwadau mewn perthynas â phob safle a grybwyllwyd yn eu hymateb.

O'r holl ymatebion, roedd chwech yn cefnogi'r cynigion i gau llysoedd a thriwilysoedd yng Nghymru. Roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- mae'r ystad yn cael ei thanddefnyddio, a dylid cynyddu'r defnydd a wneir ohoni.
- datblygu gwasanaethau digidol yw'r ffordd ymlaen.
- yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig gwneud arbedion yn lle bynnag y bo'n bosibl.

Roedd 131 yn gwrthwynebu'r cynigion i gau llysoedd a thriwilysoedd yng Nghymru. Roedd y prif themâu fel a ganlyn:

- rhagor o amser teithio
- argaeledd a chost trafnidiaeth i leoliadau eraill
- mynediad at gyfiawnder
- data gwallus yn y papur ymgynghori a'r asesiad yn ymwneud ag amseroedd teithio.

- diffyg cyfeiriad strategol neu ddarpariaeth TG cyn y gwneir penderfyniad

Nid oedd 15 o'r ymatebwyr o blaid nac yn erbyn y cynigion.

Cyfraddau defnydd y Llys Sirol

Cafwyd ffigurau defnydd y llys sirol yn y cynigion safle wrth safle o fewn yr ymgynghoriad ar sail data llwyth gwaith yr oriau eistedd fel cyfran o gapasiti cyfan yr ystafelloedd llys. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn ymwybodol bod rhai llysoedd sirol yn defnyddio siambrau ac ystafelloedd anffurfiol i wrando gwaith y llys sirol, ac efallai nad yw hyn wedi'i gofnodi yn y data llwyth gwaith ar gyfer rhai o'r llysoedd hyn. Roedd nifer o'r ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith y dylid ystyried gwaith sy'n cael ei wrando yn siambrau'r llys sirol fel rhan o'r defnydd cyffredinol a wneir o'r llys, ac felly rhoddwyd ystyriaeth i ddata ychwanegol ar waith barnwrol a gynhelir yn y siambrau ac ystafelloedd anffurfiol cyn y gwnaethpwyd penderfyniadau terfynol.

Costau gweithredu

Mae'r costau gweithredu yn y ddogfen hon wedi cael eu diweddarau o'r rhai a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Maent wedi cael eu newid i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Penderfyniad

Yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cadw'r llys canlynol ar agor:

- Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant

Bydd y llysoedd canlynol yn cau, ond serch hynny gyda newidiadau i'r cynigion gwreiddiol yn yr ymgynghoriad. Bydd y gwaith naill ai'n cael ei symud i safle arall o fewn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, neu gwnaethpwyd penderfyniad i sefydlu darpariaeth amgen sy'n lleol ac addas, ac mewn rhai achosion bydd hyn yn digwydd cyn i'r llys gau. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys ar sail llysoedd unigol yn yr ymatebion i gynigion unigol:

- Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau
- Llys Ynadon Caergybi
- Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni

Bydd y llysoedd canlynol yn cau. Rydym wedi dod o hyd i leoliadau amgen i gymryd y llwyth gwaith er mwyn lleihau effaith cau'r llysoedd ar y defnyddwyr:

- Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)
- Llys Ynadon Prestatyn

Bydd y llysoedd canlynol yn cau yn ôl y cynigion.

- Llysoedd Barn Aberhonddu
- Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr
- Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot
- Llys Ynadon Pontypridd
- Canolfan Wrandawiadau a Thribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton)

Ymatebion cyffredinol

O'r holl ymatebion a ddaeth i law, roedd 41 yn berthnasol i Gymru a chodwyd y pwyntiau canlynol:

Mae rhai gwleidyddion a chyfreithwyr yng Nghymru bellach yn llafar iawn dros eu cefnogaeth i awdurdodaeth ar wahân i Gymru. Fy marn i yw y byddai Cymru dan anfantais petai hyn yn digwydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw amheuaeth y rhoddir mwy o fomentwm i'r rhai sydd o blaid awdurdodaeth ar wahân os oes ymdeimlad bod cau llysoedd yn cael ei yrru gan lywodraeth ganolog trwy ddefnyddio meini prawf cyffredinol nad ydynt yn cymryd sylw o'r ffaith bod Cymru yn wlad ohoni ei hun, gyda'i hiaith a'i thraddodiadau ei hun. Yn ogystal bydd anawsterau daearyddol dybryd i'w goresgyn os bydd llysoedd yng nghefn gwlad yn cau (Barnwr Llywyddol Cymru)

"Mae tynnu darpariaeth yn yr amgylchiadau a gynigir yn gwbl annerbyniol. Fe ddylai cyfiawnder fod ar gael i bawb a hynny yn lleol. Mae Plaid Cymru wedi galw ers talwm i'r drefn llysoedd a chyfiawnder yng Nghymru gael ei datganoli i Gymru. Oherwydd y cynigion afresymol galwn am y datganoli hwn". (Plaid Cymru)

Nid oedd yr ymgynghoriad wedi'i fwriadu i ystyried datganoli cyfiawnder i Gymru.

Ychydig iawn o wybodaeth a geir am yr effaith ar staff GLITEM yn y llysoedd a gynigir eu cau. Tybir y gall 61 o swydd gael eu heffeithio. (Llywodraeth Cymru)

Rydym yn cydnabod y gallai effeithio ar rai aelodau o'r staff, serch hynny, nid oes staff yn gweithio'n barhaol mewn nifer o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd yr ymgynghorwyd arnynt. Os oes staff yn gweithio yno, rydym yn rhagweld y bydd nifer ohonynt yn dymuno trosglwyddo i'r safleoedd sy'n cymryd y gwaith. Bydd unrhyw drosglwyddiad i drefniadau newydd yn digwydd mewn modd teg ac agored, mewn ymgynghoriad â'r Undebau Llafur Adrannol yn dilyn proses Rheoli Newid Sefydliadol y cytunwyd ymlaen llaw. Byddwn yn datblygu cynlluniau gweithredu manwl ar sail pob safle unigol yn awr.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'n gryf y cynigion ar gyfer rhesymoli ystad GLITEM cyn cyhoeddi'r cynigion a'r dadansoddiad ar ddulliau eraill o weithio. Mae'n gwbl anfoddfaol ac ataliol i gael ymgynghoriad tameidiog a darnynol ar gynigion o newid sylweddol a radical i'r system gyfiawnder. (Llywodraeth Cymru)

Yn ogystal â mynd i'r afael â'n hystad, rydym yn edrych ar foderneiddio ein harferion a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio. Rydym wedi sefydlu ffyrdd eraill o weithio yn barod, megis yr heddlu yn defnyddio cyswllt byw, sgriniau digidol a'r system ddigidol ar gyfer rheoli achosion, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein systemau fel na fydd angen i gymaint o bobl fynd i'r llys eu hunain, ac felly'n ein caniatáu i leihau ein hystad. Er ein bod yn derbyn bod rhaid i unigolion fod yn bresennol yn y llys eu hunain mewn rhai achosion, mae'n wir hefyd mewn oes lle defnyddir fwyfwy ar systemau digidol, na fydd angen i ddefnyddwyr fod yn bresennol mewn gwrandawriadau eu hunain bob amser i gael mynediad at y system cyfiawnder. Mae darpariaethau mewn lle yn barod i alluogi rhai categorïau o ddiodefwyr a thystion roi tystiolaeth drwy ddefnyddio sgriniau, mewn ystafell

breifat neu drwy linc fideo, heb orfod dod i'r llys, ac rydym yn edrych ar ffyrdd o ehangu'r darpariaethau hyn i gynnig rhagor o ddewis.

Cred Cymdeithas yr Ynadon bod yr adolygiad yng Nghymru yn wallus ac na ellir ei weithredu, na'i ganfod yn deg na chyfartal, gan nad yw'r pum adeilad mwyaf costus yn ystad GLITEM Cymru wedi eu cynnwys yn yr adolygiad, sef yn benodol Ardal Cyfiawnder Lleol Caerdydd a Llys y Goron Caerdydd sydd ill dau wedi eu heithrio. (Cymdeithas yr Ynadon)

Ni wnaethpwyd ein cynigion ar sail cost yn unig, ond ar sail mynd i'r afael ag ardaloedd lle mae gennym ormod o adeiladau. Nid oedd cynnig i gau unrhyw un o'r pum safle yng Nghaerdydd oherwydd bod tri o'r pump yn adeiladau mawr a gellir eu defnyddio yn fwy hyblyg i gynyddu eu capasiti ar gyfer cynnal llysoedd amlswyddogaethol. Hefyd, roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod bod angen dod o hyd i ddatrysiad hirdymor yng Nghaerdydd, lle mae pum adeilad llys a thriwlynlys yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i adolygu ein hystad ar hyd a lled Cymru i asesu'r ffordd orau o gwrdd ag anghenion ein defnyddwyr yn yr ardal hon.

Mynediad at gyfiawnder

Mae cau llysoedd ynadon Aberhonddu, Dolgellau, Caerdybi a Llangefni yn codi pryderon go iawn o ran mynediad at gyfiawnder. (Academydd)

Rydym yn gwerthfawrogi bod y llysoedd hyn mewn rhannau gwledig o Gymru, a'u bod yn dioddef oherwydd cysylltiadau trafniadaeth gwael. I sicrhau y cynhelir mynediad at gyfiawnder, hyd yn oed mewn ardaloedd mwy gwledig, rydym yn ymrwymedig i ddarparu ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at ein gwasanaethau. Mewn oes o weithio'n fwy digidol, bydd yr angen i ddefnyddwyr y llys fod yn bresennol eu hunain i gael mynediad at y system gyfiawnder yn lleihau.

Gwneir y cynigion hyn cyn unrhyw gynigion o ran sefydlu dulliau newydd o sut y gwneir gwaith y llys yn rhithiol, neu o ran cael ystafelloedd gwrando 'fel bo'r angen' mewn adeiladau dinesig neu debyg. Fel mae pethau ar hyn o bryd, mae'r cynnig hwn o blaid cau nifer o Lysoedd Sirol gyda gwaith y llys yn cael ei symud i nifer dethol, o Lysoedd Sirol eraill. (Elusen)

Yn ogystal â lleihau ein hystad, rydym yn edrych ar foderneiddio ein harferion a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio, gan ddefnyddio ein hystad yn gallach ac yn fwy hyblyg i leihau costau rhedeg a chynyddu'r nifer o ystafelloedd amlswyddogaethol, a fydd yn caniatáu awdurdodaethau llys a thriwlynlys gwahanol i rannu lleoliadau. Rydym wedi sefydlu ffyrdd eraill o weithio yn barod, megis "*Cofnodi Ple*" ar-lein, cynnal gwrandawiaadau rheoli achosion yn y llysoedd sifil dros y ffôn, yr heddlu yn defnyddio cyswllt byw, a'r system ddigidol ar gyfer rheoli achosion. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein systemau fel na fydd angen i gymaint o bobl ddod i'r llys yn bersonol.

Rydym yn herio'r awgrymiad y "byddai mwy o ddefnydd o dechnoleg a moderneiddio arferion a phrosesau yn gwella gwasanaethau i ddefnyddwyr" yn gwneud yn iawn dros y bwriad i gau Llysoedd Ynadon Dolgellau ac Aberhonddu. Byddai cau'r llysoedd hyn yn arwain at sefyllfa sy'n gwbl groes i'r hyn a nodir fel ei amcan, sef i beidio â gwneud y teithio yn feichus ac anodd. (Cymdeithas y Cyfreithwyr, Canolbarth Cymru)

Rydym yn deall bod gwasanaethau TG yn gallu bod yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd anghysbell. Rydym yn parhau yn ymroddedig i ddarparu gwasanaeth effeithlon i'n holl ddefnyddwyr. Er enghraifft, rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio adeiladau dinesig priodol ar gyfer cynnal rhai mathau o wrandawiadau, ac mewn rhai achosion, gellir oedi amser dechrau gwrandawiadau i ganiatáu pobl i fynychu'n hwyrach o ganlyniad i broblemau teithio. Rydym yn archwilio'r opsiynau ar gyfer darpariaethau eraill yn Nolgellau ac Aberhonddu.

Codwyd pryderon gyda mi o ran y posibilrwydd o ddiffnyddion, tystion ac ynadon yn teithio gyda'i gilydd ar yr un un bws i'r llys, a thrwy hynny yn creu sefyllfa fygythiol. (Aelod Seneddol)

Mae'r posibilrwydd bod rhai neu'r holl bartïon yn yr un achos yn teithio ar yr un drafnidiaeth gyhoeddus yn bodoli ar hyn o bryd. Gellir mynd i'r afael â phryderon fel hyn ymlaen llaw drwy gysylltu â gwasanaethau dioddefwyr ac unedau gofal tystion, neu drwy wneud cais i'r llys neu driwlynlys. Fel arfer, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod i'r llys gyda thrafnidiaeth breifat. I'r rhai sy'n rhagweld problemau, byddwn yn parhau i ystyried ceisiadau a fyddai'n helpu goresgyn y problemau hyn.

Nid wyf o'r farn bod gwrandawiadau teleffon neu rai'n seiliedig ar waith papur yn briodol, dim ond yn yr achosion mwyaf syml. Mae'r rhan fwyaf o ryngweithio dynol yn digwydd heb ddefnyddio unrhyw eiriau, ac felly bydd amddifadu'r llys o'r cyfle i weld diffnyddion, tystion a dioddefwyr yn bersonol yn gam yn ôl. (Aelod Cynulliad)

Rydym yn edrych ar ffyrdd o ehangu'r ystod o ddulliau amgen lle gall defnyddwyr y llys gael mynediad at y system cyfiawnder. Byddwn yn gwneud defnydd gwell o dechnoleg, gan gynnwys cynadledda fideo, ond hefyd rydym yn edrych i weld pa un ai a allwn ddefnyddio adeiladau dinesig i gynnal rhai mathau o wrandawiadau.

Rydym yn gwbl gefnogol i weledigaeth y Gweinidog o system gyfiawnder sy'n addas ar gyfer y 21 Ganrif. Mae nifer o lysoedd yn bell o fod yn addas i'r pwrpas ac rydym yn croesawu'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ddigideiddio'r holl broses lle'n bosibl. Fodd bynnag, dylai mynediad at gyfiawnder fod yn rhan annatod o unrhyw system. (Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru)

Yn yr oes ddigidol sydd ohoni heddiw, ni ellir cyfiawnhau gwario bron i draean o gyllideb cyfan Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM - sef tua £500 miliwn y flwyddyn - ar gynnal ystad sy'n heneiddio a dirywio. Byddwn yn darparu gwell mynediad at gyfiawnder os byddwn yn lleihau cost ein hystad ac ailfuddsoddi'r arbedion mewn cynyddu mynediad at systemau digidol, a gwella hygyrchedd a chyfleusterau wrth ddatblygu ein lleoliadau llys a thriwlynlys craidd.

Mae asesiad effaith 130 (Prawfesur Polisiâu Gwledig) yn cydnabod yn benodol y bydd cynnydd tebygol mewn amseroedd teithio yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad teithio a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar y ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, ond mae'n ffaith bod y cyllid cyhoeddus a ddynodir ar gyfer trafndiaeth gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol Cymru yn mynd i leihau, ac o ganlyniad bydd y ddarpariaeth o ran trafndiaeth gyhoeddus yn lleihau. Mae'n debygol yn y dyfodol agos y bydd grŵp mwy o ddefnyddwyr y llys sydd ond yn gallu cyrraedd y llys trwy daith ar trafndiaeth gyhoeddus o awr neu fwy yn mynd i fod yn fwy na'r hyn a ddatgenir yn y dadansoddiad. (Mainc Sir Drefaldwyn)

Nid yw'n addas i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM wneud sylwadau ar y ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus. Wedi dweud hynny, nid yw cael mynediad at gyfiawnder yn ymwneud â bod yn agos at lys yn unig. Bydd y newidiadau a wnawn i'n gwasanaeth yn golygu na fydd angen i gymaint o bobl ddod i'r llys. Bydd defnyddio technoleg fodern, fel y gwnawn gyda llawer o wasanaethau eraill, yn gwneud cael mynediad at gyfiawnder yn haws.

Mae Llywodraeth Cymru yn poeni bod y data a'r dadansoddiad o amseroedd teithio a ddarparwyd gan WLITEM yn ei ddogfen ymgynghori yn ddisylwedd ac annibynadwy oherwydd bylchau lle mae canran sylweddol o amseroedd teithio ar gyfer pobl lle nodir '**dim data**'. (Llywodraeth Cymru)

Mewn rhai achosion, mae nifer o deithiau lle mae'r data amseroedd teithio ar goll o'r rhaglen cynllunio taith, sy'n amrywio rhwng rhanbarthau ac awdurdodaethau. Nid yw hyn yn gyfyngiad ar y data, ond swyddogaeth y teithiau a dynnwyd allan o'r rhaglen ar adeg y dadansoddi. Yn y rhan fwyaf o'r achosion, mae hyn rhwng 0% a 5% o bob taith a fodelwyd. Rydym wedi amcangyfrif yr amseroedd teithio ar gyfer y siwrneiau hyn gan ddefnyddio'r adeilad llys agosaf o fewn yr un ardal leol. Os nad oes llysoedd eraill yn yr un ardal leol, rydym wedi defnyddio'r cyflymder teithio rhanbarthol cyfartalog mewn car a chyda thrafnidiaeth gyhoeddus, a'r pellteroedd i gyfrifo'r amseroedd teithio.

O ystyried maint sylweddol a chyflymder diwygiadau Llywodraeth y DU i'r system gyfiawnder, mae Llywodraeth Cymru yn argymhell yn gryf bod Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad llawn a phriodol i werthuso effeithiau cronus y diwygiadau, i allu deall sut y maent yn lleihau'n sylweddol y mynediad at y system gyfiawnder ac os yw Llywodraeth y DU yn cydymffurfio gyda'i oblygiadau i warchod egwyddorion pwysig gan gynnwys yr hawl i dreial teg yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. (Llywodraeth Cymru)

Rydym yn ceisio cynnig ffyrdd mwy cyfleus i ddinasyddion ryngweithio gyda'r system gyfiawnder, sy'n gymesur i ddifrifoldeb y mater sy'n cael ei ystyried. Rydym yn cydnabod bod presenoldeb yn y llys yn angenrheidiol ar gyfer rhai mathau o achosion.

Y mae darparu cyfiawnder yn mynd law yn llaw gyda chael mynediad ato. Mae llysoedd sy'n hanfodol i gryfder ein cymunedau a'n cymdeithas, sy'n diogelu'r rhai nad ydynt yn gallu diogelu eu hunain ac yn sicrhau bod cyfiawnder ar gael i bawb, dan fygythiad cael eu cau. Mi fyddai eu cau yn ogystal â'r cynigion i godi ffioedd llys, y cyfyngiad ar y rhai sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol, yn cyfyngu ar fynediad at gyfiawnder. Mae mynediad at gyfiawnder, ac yn wir fynediad cyfartal i gyfiawnder yn gonglfaen cymdeithas sifil. Y mae wrth galon cymdeithas ddemocrataidd. Y mae'r canoli parhaus o wasanaethau'r llys ymhellach oddi wrth gymunedau yn tanseilio'n llwyr y cysyniad o gyfiawnder lleol. (Aelod Cynulliad)

Mae'n debygol y bydd amseroedd teithio yng Nghymru yn cynyddu. Fodd bynnag, ystyrir bod y cysylltiadau trafndiaeth yn ddigonol, a disgwylir i'r amseroedd teithio aros yn dderbyniol.

Nid yw cael mynediad at gyfiawnder yn ymwneud â bod yn agos at lys yn unig. Rydym yn ymroddedig i ddarparu dulliau amgen fel na fydd angen teithio.

Mae'r ymgynghoriad yn cyfleu mai oddeutu un rhan o bump o'r holl lysoedd fydd yn cau. O ran Cymru mae'r data yn cyfleu bod un rhan o dair o'r llysoedd ynadon yn wynebu cael eu cau (6 allan o 18) a hanner yr holl lysoedd sirol (5 allan o 10).

O ganlyniad bydd y cynigion arfaethedig i gau'r llysoedd yn effeithio ar gyfran uwch o ddefnyddwyr y llys yng Nghymru. (Comisiynydd Plant Cymru)

Mae'r nifer o lysoedd a ddyfynnwyd yn anghywir. Cynigir bod saith llys ynadon allan o gyfanswm presennol o 23 yng Nghymru yn cau; yn ogystal â bod pum llys sifil a llys teulu yn cau allan o gyfanswm presennol o 19.

Yr wyf o'r un farn â'r Barnwyr yn Llys y Goron Abertawe na fyddai'n briodol i leihau capasiti llys y Goron i bedwar llys y goron i wasanaethu Gorllewin Morgannwg a Dyfed Powys. Nid wyf o'r farn bod unrhyw rwystrau ymarferol rhag defnyddio Llys y Goron yn Hwlfordd yn rheolaidd. Yn sicr ni chyflwynwyd unrhyw rwystrau ymarferol i'm sylw i pan fu imi ymweld â'r llys. (Barnwr Llywyddol Cymru)

Nid yw'n ofynnol inni ymgynghori ynghylch cyfuno gwasanaethau, ond rydym wedi adolygu'r sylwadau a ddaeth i law. Byddwn yn ystyried yr angen am gapasiti ychwanegol i'r Llys y Goron yng ngorllewin Cymru.

Gwerth am arian

Mae'r llysoedd sy'n cael eu paratoi ar gyfer eu cau yng Nghymru prin yn cael eu defnyddio ac yn wastraff llwyr ar adnoddau....mae'r sector cyhoeddus yn gwastraffu miliynau o bunnoedd pob dydd a bydd hyn yn rhoi stop a'r beth o'r gwastraff hyn. (Aelod o'r cyhoedd)

Fel y mae'r ymatebydd wedi sylwi, mae nifer o'r llysoedd a gynigir ar gyfer eu cau yn cael eu tanddefnyddio. Ein nod yw canolbwyntio ar weinyddu cyfiawnder gydag ystad graidd, a defnyddio'r ystad yn fwy effeithlon, er budd y defnyddwyr a'r trethdalwr.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae angen ystyried yn fanwl yr effaith ar Feinciau os bydd Ardal Cyfiawnder Lleol yn uno. Mae hyn yn gyfle gwych i edrych ar beth yw'r maint delfrydol ar gyfer Meinciau, o ystyried gwybodaeth leol, pellteroedd teithio a materion bugeiliol. Mae'n fwy priodol i ystyried hyn cyn cau'r llysoedd ac yn wir beth fydd yr effaith ar recriwtio ynadon gyda gwybodaeth leol. Unwaith eto dyma golli cyfle i greu system gyfiawnder o'r newydd. (Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru)

Nid oedd uno meinciau yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, er y cydnabyddir y bydd angen ystyried uno rhai Ardaloedd Cyfiawnder Lleol (LJAau) petai rhai llysoedd penodol yn cau. Er enghraifft, ni fyddai'n gwneud synnwyr i ddwy fainc fod yn weithredol mewn un adeilad llys, ac mae'n bosib y bydd angen aildrefnu rhai o'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Byddwn eisiau gweithio gyda Grwpiau Busnes Barnwrol Lleol yng Nghymru i ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol yn gynnar ynglŷn ag uno meinciau.

Byddem wedi hoffi gweld y system gyfan yn cael ei hailwampio, i greu system gyfiawnder gynaliadwy ac integredig. Mewn gair mae'r ddogfen yn canolbwyntio gormod ar gau llysoedd, yn hytrach nac achub ar y cyfle i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer system gyfiawnder fodern, a fyddai'n cael sêl ein bendith. (Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru)

Yn ogystal â mynd i'r afael ag ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, rydym yn edrych ar foderneiddio ein harferion a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio. Rydym wedi sefydlu ffyrdd eraill o weithio yn barod, megis yr heddlu yn defnyddio cyswllt fideo

byw, sgriniau digidol, a systemau digidol ar gyfer rheoli achosion. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r systemau hyn fel na fydd angen i gymaint o bobl fynd i'r llys yn bersonol, ac felly'n ein caniatáu i leihau ein hystad ac ailfuddsoddi'r arbedion i ddiwygio ein prosesau a chynhyddu mynediad at wasanaethau digidol.

Mae'r tebygolrwydd y bydd y cynlluniau i gau llysoedd sirol yn arwain at gynnydd yn y rhai sy'n colli eu cartrefi a fydd wedyn yn cael effaith ehangach ar eraill. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol i weithio gyda'r rhai hynny sy'n colli eu cartrefi i geisio trefnu llety iddynt. Ar gyfer rhai fydd yn colli eu cartrefi, bydd gofyniad ar y cyngor lleol i ddarparu llety dros dro ac yna i ddarparu llety parhaol. Fe all y gost i bwrs y wlad o ddarparu'r gwasanaethau hyn fod yn sylweddol, ac o ran gwariant cyhoeddus drwyddi draw, yn tynnu oddi wrth beth o'r arbedion a ragdybiwyd i'w defnyddio ar gyfer gwelliannau. Mae'n debygol y bydd y costau ychwanegol hyn yn cael eu trosglwyddo o'r llywodraeth ganolog i lywodraeth ddatganoledig Cymru. (Elusen)

Rydym yn ymroddedig i greu system sy'n dod â chyfiawnder yn nes drwy ffyrdd modern a digidol o weithio, sy'n golygu na fydd angen i gymaint o bobl fynychu llys.

Sylwaf fod y cynigion a wneir yn y ddogfen ymgynghori yn seiliedig ar asesiad o ffigyrau cyfredol a hanesyddol, ynghyd â rhagdybiaeth gyffredinol y bydd troseddu yn lleihau dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, awgrymaf o ran y cynigion i gau llysoedd y dylid cynnal asesiad cynhwysfawr o'r galw yn y dyfodol. Er enghraifft, disgwylir y bydd adeiladu Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa Newydd ar Ynys Môn yn cael effaith dramatig ar y tirlun economaidd ar Ynys Môn, ac o ganlyniad fe fydd y proffil troseddol hefyd yn newid. (Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru)

Rydym yn adolygu tueddiadau yn y llwyth gwaith ar draws yr holl awdurdodaethau yn rheolaidd, a seiliwyd y cynigion yn yr ymgynghoriad ar y llwyth gwaith presennol a'r rhagolygon. Byddem yn delio gydag unrhyw newidiadau mawr i'r llwyth gwaith drwy ddefnyddio capasiti'r llys mewn modd hyblyg ar y pryd. Ni ellir cyfiawnhau cadw adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio gan dybio bod y llwyth gwaith troseddol o bosib yn mynd i gynyddu. Rydym yn chwilio am ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau ar Ynys Môn.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Ystyriwch roi llys mewn carchardai lleol neu wrth ddylunio carchardai newydd i ystyried cynnwys llys o'u mewn. Byddai ynad neu farnwr yn gallu gwrando nifer o achosion o'r ardal mewn un man diogel. Byddai hyn yn lleihau amseroedd teithio, costau ac yn gwella diogelwch. (G4S)

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy'r (NOMS) i chwilio am leoliadau eraill o fewn carchardai yng Nghymru.

Yn y gorffennol fe gaewyd llysoedd oherwydd diffyg adnoddau ac felly mae'n anodd darparu rhestr o leoliadau addas; byddai rhywun yn disgwyl bod dadansoddiad cost a budd wedi ei wneud a'i gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad fel y gellid cyflwyno ymateb priodol. Yn ogystal, yn ychwanegol i'r buddsoddiad pellach a fyddai ei angen i ddefnyddio lleoliadau amgen, mae risg bod y lleoliadau hynny nad ydynt o dan reolaeth GLITEM yn gorfod cael eu dychwelyd i'r perchennog, neu na ellir eu defnyddio am resymau eraill. Y lleoliadau mwyaf

tebygol fyddai adeiladau awdurdod lleol ac mae hwythau o dan bwysau ariannol ac ar hyn o bryd yn edrych i leihau costau eu hystad. (Cangen Cymdeithas yr Ynadon Powys a Swydd Henffordd)

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eisoes wedi sefydlu ffyrdd amgen i ddefnyddwyr ryngweithio gyda'n gwasanaethau, megis defnyddio cyswllt fideo, ac rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ehangu'r darpariaethau hyn i roi mwy o ddewis na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys edrych i weld pa un ai a allwn ddefnyddio adeiladau dinesig i gynnal rhai mathau o wrandawiadau. Rhoddir ystyriaeth lawn i addasrwydd adeiladau o'r fath i gynnal gwrandawiadau llys bob amser, cyn y cânt eu defnyddio. Mae gwaith galluogi wedi cael ei gynnwys yn ein cynigion.

Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion Cymreig

Yn y rhannau hynny o Gymru sy'n fwy Seisnig, nid yw'r cynnig rhagweithiol arferol hyn o wasanaeth yn cael ei roi. O ganlyniad, bydd cau Canolfan Wrandawiadau Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant Caerfyrddin, Llysoedd Barn Caerfyrddin, Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot a Llys y Goron a Llys Ynadon Dolgellau yn debygol o effeithio ar y defnydd o'r iaith Gymraeg, am y rheswm syml na fydd y ffactorau perthnasol sy'n dylanwadu ar ddefnydd iaith yn bodoli. (Academydd)

Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar sail gyfartal. Rhannwyd ein Hasesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg gyda gweinidogion cyn y gwnaethpwyd unrhyw benderfyniadau ar ba lysoedd y dylid eu cau. Gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a byddwn yn ymateb i anghenion ein defnyddwyr yn yr un modd ag y gwnaethom cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad.

“Mae ardaloedd o Gymru sydd wedi'u heithrio yn llwyr bron iawn o ddetholiad rheithwyr yn ardaloedd lle mae cyfran sylweddol uwch o'r gofrestr etholiadol yn siarad Cymraeg. Mae amser pellter teithio un awr a hanner o Abertawe, Caernarfon a'r Wyddgrug yn eithrio ardaloedd mawr o ganolbarth a gorllewin Cymru.” (Barnwyr Cyswllt ar gyfer yr iaith Gymraeg)

Nid oes cyfyngiad statudol i'r pellter y gall rheithiwr deithio i gyflawni gwasanaeth rheithgor. Y Swyddfa Ganolog Gwysio Rheithgor sy'n gyfrifol am bob rheithiwr yng Nghymru a Lloegr, a bydd yn ceisio dyrannu unigolion i gyflawni gwasanaeth rheithgor mor agos â phosib i'w cartref. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn un o'r meini prawf ar gyfer dewis rheithwyr.

Mae GLITEM yn honni eu bod yn ymroddedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac fel adran o'r llywodraeth mae goblygiad arno i wneud hynny. Mae'r dogfennau ymgynghori yn ymddangos eu bod yn ymdrin gyda phob math o anghyfartalrwydd posib o ran ymysg eraill, rhyw, hil, crefydd, anabledd, tueddiad rhywiol, oed ac ailgyfeiriad rhyw, ynghyd ag effeithiau amgylcheddol a nwy tŷ gwydr ac effeithiau ar fusnesau bach, ond nid yw'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth sy'n cael sylw o gwbl mewn unrhyw un o'r dogfennau ymgynghori. (Cymdeithas Barnwyr Cymru)

Rhoddyd ystyriaeth i'r effaith ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg wrth ddechrau llunio'r cynigion ar gyfer gwneud newidiadau i ddarpariaeth y gwasanaeth llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru. Rydym yn ymroddedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar sail gyfartal, ac rydym yn ceisio sicrhau bod y penderfyniadau sy'n ymwneud â pholisi, sy'n effeithio ar wasanaethau cyfiawnder yng Nghymru, yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Cyhoeddwyd asesiad llawn o'r effaith ar yr iaith Gymraeg ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad.

“...mae angen ystyried yr adnoddau technegol sydd ar gael o fewn yr ystad i gynnal gwrandawiadau Cymraeg a dwyieithog, rŵan ac yn y dyfodol.”
(Comisiynydd y Gymraeg)

Bydd rhai o'r cynigion i gau yn symud gwaith i ganolfannau llys sydd â chyfleusterau cyfieithu sefydlog, er enghraifft y Llys y Goron yn Abertawe a Chanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon.

“Mae angen asesiad manwl o gapasiti sgiliau iaith gweithlu'r llysoedd yng Nghymru a chynllunio unrhyw newidiadau sydd eu hangen ar y sail bod rhaid sicrhau y gellir darparu gwasanaethau Cymraeg yn y dyfodol yn unol â dyletswyddau statudol GLIThEM.” (Comisiynydd y Gymraeg)

Rydym yn adolygu gallu ieithyddol ein staff yn barhaus. Ar hyn o bryd, mae gennym 111 o siaradwyr Cymraeg a 22 aelod o'r staff ar wahanol lefelau o ddysgu Cymraeg, sef 18% o'n staff. Hefyd, rydym yn gweithio i baratoi dogfen ddiwygiedig a chyfredol i swyddogion recriwtio ar yr angen i ystyried pennu gofynion ieithyddol wrth hysbysebu swyddi gwag. Mae ein Bwrdd Newid Gweithlu yn adolygu gallu'r staff mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn rheolaidd, a chymerir camau i reoli a gwella fel y bo'n briodol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o'n staff wedi mynychu cwrs lefel un, sef cwrs undydd ar ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg ac ynganu. Yn ystod 2015-16 bydd gofyniad i'r holl staff yng Nghymru i gwblhau cwrs ar-lein ar ymwybyddiaeth am y Gymraeg.

Ymatebion i gynigion unigol

Llysoedd Barn Aberhonddu

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llysoedd Barn Aberhonddu a symud y gwrandawriadau troseddol i Lysoedd Barn Llandrindod a Llys Cyfun Merthyr Tudful, a Llys Ynadon Abertawe ar gyfer defnyddwyr sy'n byw yn ardal Ystradgynlais. Bydd y gwrandawriadau sifil, teulu a thriwilysoedd yn cael eu symud i Lys Cyfun Merthyr Tudful.

Daeth cyfanswm o 17 ymateb i law mewn perthynas â Llysoedd Barn Aberhonddu. O'r rhain roedd:

- pedwar gan ynadon
- tri gan gorff sector cyhoeddus arall
- tri gan ddefnyddwyr proffesiynol
- dau gan aelodau o'r cyhoedd
- un gan Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad
- un gan aelod o'r farnwriaeth
- un gan bartner yn y system cyfiawnder troseddol
- un gan yr undeb neu grŵp staff
- un gan rywun arall

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 16 yn gwrthwynebu ac roedd un yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Aberhonddu 29 milltir i ffwrdd o Landrindod, 19 milltir i ffwrdd o Ferthyr Tudful a 25 milltir i ffwrdd o Ystradgynlais. Mae Ystradgynlais 15 milltir i ffwrdd o Abertawe. Nid oes cysylltiadau rheilffordd ymarferol rhwng unrhyw un o'r llysoedd a gyfeirir atynt. Gellir teithio ar drên o Ferthyr i Landrindod drwy Gaerdydd a'r Amwythig, ac mae'n cymryd hyd at bum awr un ffordd.

Yn ystod yr wythnos, mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Aberhonddu, Merthyr Tudful a Llandrindod, a rhwng Ystradgynlais ac Abertawe hefyd. Ar hyn o bryd, mae Llysoedd Barn Aberhonddu yn eistedd dau neu dri diwrnod yr wythnos.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder mewn perthynas â Llysoedd Barn Aberhonddu

Mae gwasanaethau bws anfyfych yn golygu bod amser teithio yn dod yn fwyfwy gymhleth. (Academydd)

Rydym yn gwerthfawrogi bod Aberhonddu yn dioddef o ganlyniad i gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus gwael, ac nad oes unrhyw gysylltiadau trê. Mae gwasanaeth bws rheolaidd. Mewn oes o weithio'n fwy digidol, ni fydd rhaid i ddefnyddwyr fod yn bresennol mewn gwrandawiadau yn bersonol bob amser.

Mae'r cynlluniau yn gallu arwain at ddileu Ardal Cyfiawnder Lleol Brycheiniog a'i huno gydag Ardal Cyfiawnder Lleol Maesyfed. Mae hyn yn tanseilio'r egwyddor o gyfiawnder lleol. (Cyngor Tref Aberhonddu)

Nid oedd newidiadau i'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad. Bydd angen aildrefnu ffiniau'r Ardal Cyfiawnder Lleol mewn perthynas â De Powys, a byddwn yn ymgysylltu â'r Grwpiau Busnes Barnwrol.

Fel Is-Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Ynadon Dyfed Powys, ysgrifennaf i gyfleu fy mod yn bryderus iawn ynghylch y bwriad i gau Llys Aberhonddu. Unwaith eto, dyma gyfiawnder lleol yn cael ei danseilio, ac ar wahân i'r pellteroedd teithio, bydd y cynigion hyn yn atal pobl leol rhag dod yn ynadon, a fydd yn dorcalonnus i'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. (Arglwydd Raglaw Powys ac Is-Gadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol Ynadon Dyfed Powys).

Bydd yr ynadon yn gwasanaethu mewn gwahanol ardaloedd i'r rhai y maent yn gwasanaethu ynddynt ar hyn o bryd. Disgwyliwn i'r broses o bobl leol yn ymddangos gerbron ynadon lleol barhau. Mae ynadon yn aelodau gwerthfawr o'r farnwriaeth, ac maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt, ym mhle bynnag y maent yn darparu cyfiawnder.

...er bod y papur ymgynghori yn cyfeirio at lysoedd cyfagos, gan gynnwys Merthyr Tudful, mewn gwirionedd byddai achosion yn cael eu trosglwyddo i Landrindod gan ei bod yn yr un sir ag Aberhonddu. (Cymdeithas y Cyfreithwyr)

Bydd Llandrindod yn parhau i fod yn safle dibynnol ar gyfer gwrandawiadau, gyda'r gwaith gweinyddol yn cael ei gyflawni ym Merthyr Tudful. Byddwn yn gweithio gyda'r Grwpiau Busnes Barnwrol gyda golwg ar ymgynghori ar aildrefnu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, a allai olygu bod llysoedd eraill ar wahân i Landrindod yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith llys ynadon yn Ne Powys.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llysoedd Barn Aberhonddu yn 2014-15 tua £177,000. Mae'r adeilad o safon dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw hanfodol, gan gynnwys gwella system awyru'r adeilad, trwsio'r systemau trydanol a gosod to fflat newydd.

Credwn felly ei bod yn bwysig bod eich asesiad o adnoddau presennol yn gywir, gan mai un dehongliad y gellir ei gynnig yw bod Aberhonddu yn adnodd sydd ond prin yn addas ac angen gwario llawer o arian arno. (Cymdeithas y Cyfreithwyr, Canolbarth Cymru)

Er bod symud y gwaith i Landrindod yn ymddangos yn fanteisiol i ni a'n cleientiaid, rydych yn ymddangos i anghofio pa mor wael yw'r ddarpariaeth yn y llys yn Llandrindod. Nid oes yno ond un llys sydd wedi ei ddylunio'n wael, gyda 2 ystafell ymgynghori gyda gwydr o'u blaenau sydd ddim yn breifat o gwbl. Mae'r

ddarpariaeth i dystion rhwng y prif lys a'r ddwy ystafell gyfnewid. Mae'r toiledau ar gyfer staff, defnyddwyr y llys a'r cyhoedd yn agor yn syth i'r manau aros cyhoeddus, ac o ganlyniad prin iawn yw'r defnydd a wneir ohono gan ferched. Mae'r maes parcio yn fach, ac mae'r llys ei hun cryn waith cerdded o'r orsaf drên a chanol y dref, ac fe'i hadeiladwyd mewn lleoliad sydd y tu allan i'r dref. Mae gan Aberhonddu dri llys, nifer o ystafelloedd ymgynghori, ac yn unigryw iawn yn adeilad a gynlluniwyd yn ddoeth ac sydd yn gweithio'n dda i bawb. Golyga hyn hefyd ei fod o fewn 150 llath i'r brif orsaf heddlu a'r ddalfa ar gyfer De a Chanolbarth Powys. (Anhysbys)

O ran llys Aberhonddu awgrymir bod angen gwneud mwy o waith i weld os yw hi'n bosibl i osod y gofod yn y rhan agored o'r swyddfa yn y llys? (Cangen Cymdeithas yr Ynadon Powys a Swydd Henffordd)

Mae'r adeilad yn Aberhonddu yn fawr, a dim ond 16% o'r capasiti a ddefnyddiwyd yn 2014-15. Credwn, drwy leihau'r nifer o adeiladau parhaol sy'n cael eu tanddefnyddio, a buddsoddi mewn mynediad digidol, y gallwn wella mynediad at gyfiawnder. Er mai 21 oed yw'r adeilad, ac felly dal yn weddol newydd, mae angen buddsoddiad i gynnal yr adeilad. Nid ydym yn credu y gellir cyfiawnhau'r costau hyn a chadw'r llys ar agor o ystyried bod yr adeilad yn cael ei danddefnyddio. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein hystad yn cael ei defnyddio i ddarparu cyfiawnder yn effeithiol ac effeithlon, a'i bod yn rhoi gwerth am arian i bwrs y wlad.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel iawn, sef tua 16%, ac ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llysoedd a fydd yn derbyn llwyth gwaith o Lysoedd Barn Aberhonddu wneud hynny heb unrhyw waith galluogi. Bydd hyn yn gwella effeithlonrwydd ac yn ein galluogi i wneud arbedion.

Nid oes sôn o gwbl bod y crwner yn defnyddio'r adeilad – a fydd hyn yn parhau yn Aberhonddu neu a fydd yr adeilad yn wag? (Cyngor Tref Aberhonddu)

Rydym wedi edrych ar ein cronfa ddata llwyth gwaith, sy'n cofnodi data defnyddio ystafelloedd llys, a gallwn gadarnhau bod y defnydd a wneir gan Lys y Crwner wedi'i gynnwys yng nghyfraddau defnydd Aberhonddu. Yn awr, yn dilyn y penderfyniad i gau adeilad Aberhonddu, bydd cynllun gweithredu manwl yn cael ei lunio. Byddwn yn parhau i gynnig cyfleusterau i Grwner EM i gynnal gwrandawiaadau yn lle bynnag y gallwn.

Nid yw'r ymgynghoriad yn cyfeirio at y capasiti o ran llwyth gwaith yn y llysoedd cyfagos a fydd yn derbyn y gwaith. O ran Aberhonddu yn benodol, a oes capasiti digonol yn Llandrindod, Merthyr Tudful ac Abertawe i gymryd y gwaith? Beth fydd yn digwydd petai mwy o lysoedd yn cau yn y dyfodol? (Cyngor Tref Aberhonddu)

Wrth wneud y cynnig i gau adeilad Aberhonddu a dyrannu'r gwaith i lysoedd cyfagos, bu inni werthuso'r capasiti sydd ar gael, ac rydym yn fodlon bod gan y llysoedd a fydd yn derbyn y gwaith gapasiti digonol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gwrdd â'r rhagolygon o ran y llwyth gwaith.

A fydd y nifer fechan o blant a phobl ifanc sy'n byw yn ardal Ystradgynlais ac sy'n troseddu neu'n cael eu cyhuddo o droseddu, yn parhau i gael eu goruchwylio gan Dîm Troseddwy'r Ifanc Powys" (West Glamorgan Magistrates) (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Byddai tîm Troseddwr Ifanc Powys yn parhau i ddelio â phobl ifanc sy'n ymddangos gerbron y llys mewn perthynas â throseddau sy'n berthnasol i ardal Powys.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Mae Cyngor Sir Powys o'r farn y gall gynorthwyo'r Weinyddiaeth Cyfiawnder trwy ddarparu lleoliad arall i lys Aberhonddu sy'n fwy cost effeithiol. (Cyngor Sir Powys)

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Sir Powys ynglŷn â'u cynnig.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu gwerthuso, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llysoedd Barn Aberhonddu a symud y llwyth gwaith i Lysoedd Barn Llandrindod, Llys Cyfun Merthyr Tudful, ac ar gyfer defnyddwyr sy'n byw yn ardal Ystradgynlais, i Lys Ynadon Abertawe. Y Grwpiau Busnes Barnwrol fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen ag aildrefnu'r Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Hefyd, byddwn yn parhau i edrych am ddarpariaeth amgen.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llysoedd Barn Aberhonddu. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr a throsglwyddo'r gwaith sifil, teulu a thriwlysoedd i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot, a'r gwaith troseddol i Lys Ynadon Caerdydd a'r Fro.

Yng Nghymru, Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr ddenodd y mwyaf o ddiddordeb. Daeth cyfanswm o 42 ymateb i law mewn perthynas â Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr. O'r rhain roedd:

- naw gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- wyth gan ynadon
- saith gan gorff sector cyhoeddus arall
- chwech gan aelodau o'r cyhoedd
- pump gan aelodau o'r staff
- dau gan ddefnyddwyr proffesiynol
- dau gan aelodau o'r farnwriaeth
- un gan yr undeb neu grŵp staff
- un gan rywun arall
- un gan bartner yn y system cyfiawnder troseddol

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 41 yn gwrthwynebu ac roedd un yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Pen-y-bont ar Ogwr 16 milltir i ffwrdd o Bort Talbot ac 20 milltir i ffwrdd o Gaerdydd. Mae gwasanaeth trên a gwasanaeth bws rheolaidd ac aml o Ben-y-bont ar Ogwr i Bort Talbot a Chaerdydd.

Mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da rhwng canolfannau sydd â phoblogaeth uchel yn yr ardal ddaeryddol y mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn ei gwasanaethu. Mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn eistedd pump i chwe diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder mewn perthynas â Phen-y-bont ar Ogwr.

..mae'r AEC yn gwbl wallus o ran teithio a thrafnidiaeth. Er bod yr AEC yn cydnabod y gall rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig fod yn wynebu costau uwch ac amseroedd teithio hirach, nid yw'n cydnabod bod nifer o'r cymoedd yn Ogwr gyda'r un rhinweddau â'r ardaloedd gwledig hyn. (Aelod Seneddol)

Mae daearyddiaeth Cymru yn golygu bod rhai pobl yn gorfod teithio am awr i gyrraedd llys, hyd yn oed cyn y gwnaethpwyd y cynigion hyn. Gall hyn fod yn gyffredin ar gyfer

teithio i'r ysgol, i goleg neu i'r gwaith bob dydd, neu ar gyfer apwyntiadau yn yr ysbyty. I'r rhan fwyaf o ddinasyddion, bydd gorfod dod i'r llys yn achlysur prin iawn. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod yr amseroedd teithio ond yn adlewyrchu'r lleoliad sy'n cau a'r un sy'n derbyn y gwaith, o'i gyferbynnu â chynnwys yr ardal gyfan.

Mae mainc Pen-y-bont ar Ogwr fel mainc y Castellnewydd ac Ogwr wedi bodoli ers 1836, bron i 200 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn mae wedi cyflawni swyddogaeth bwysig ym mywyd cymuned leol Pen-y-bont ar Ogwr, ac mewn nifer o feysydd amrywiol eraill gan gynnwys yr economi ddiwydiannol a gwledig, a hynny trwy amseroedd da a drwg, gan lwyddo i gynnal safon uchel o gydlynad cymdeithasol yn y cymoedd a'r trefi'r naill fel ei gilydd, gweinyddu cyfiawnder yn deg a chadarn i ddiffynyddion a dioddefwyr gan fod yn ymwybodol trwy'r amser o'u hamgylchiadau, anghenion a'u galluoedd. (Ynad Heddwch)

Penodir ynadon i gynrychioli amrywiaeth y boblogaeth yn y gymuned, a barnu achosion yn ddiduedd, gan sicrhau eu bod yn gweinyddu cyfiawnder yn deg. Bydd ynadon lleol, sy'n aelodau gwerthfawr o'r farnwriaeth, yn parhau i wrando ar achosion trwy weithio'n dda gyda'i gilydd er budd y cymunedau a wasanaethir ganddynt, ym mhle bynnag y maent yn gweinyddu cyfiawnder.

Fel y cyfeiriais yn flaenorol, mae'n amlwg bod gwas sifil wedi edrych ar fap ac wedi gweithio allan bod y pellter o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd yn 22 milltir. Yn seiliedig ar y camagraff hwn o ardal Sir Pen-y-bont daethpwyd i'r farn na fyddai hyn yn peri fawr ddim o anhwylustod i deithio i Lysoedd Barn Caerdydd. (Ynad Heddwch)

Cyfrifwyd yr amseroedd teithio gan ddefnyddio data ar amseroedd teithio o raglen cynllunio taith Transport Direct yr Adran Drafndiaeth. Gall rywun sy'n teithio o bwynt pellaf Cwm Llynfi i Ben-y-bont ar Ogwr wneud hynny ar drên. Mae trenau yn rhedeg i lawr Cwm Llynfi unwaith bob awr (am chwarter wedi). Mae'r daith yn cymryd 22 munud, gan gyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr 37 munud wedi'r awr. Mae hyn yn galluogi rhywun i ddal y gwasanaeth trên 40 munud wedi'r awr o Ben-y-bont ar Ogwr, sy'n cyrraedd Caerdydd 9 munud wedi'r awr. Byddai'n cymryd cyfanswm o 54 munud i gwblhau'r daith (o orsaf Maesteg i orsaf Caerdydd).

Nid oedd hyd yn oed Cadeirydd ein Mainc yn ymwybodol bod Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr wedi eu cynnwys ar y rhestr hyd nes y gwnaed y datganiad cyhoeddus. Mae hyn yn dangos diffyg cwrteisi a bod yn agored. (Ynad Heddwch)

Ni fyddai wedi bod yn briodol i ddyfalu pa lysoedd a thriwlynlysoedd oedd ar y rhestr tan i'r Llywodraeth gyhoeddi'r ymgynghoriad. Cyn gynted ag y gosodwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog gerbron, cysylltwyd â phob Cadeirydd Mainc yn bersonol i'w hysbysu ynglŷn â'r cyhoeddiad, ac aeth uwch reolwr i bob safle a fyddai'n cael ei effeithio yng Nghymru.

Hyd y gwn i, ni wnaed unrhyw ymdrech gan y llywodraeth i weld pe bai ynadon Pen-y-bont ar Ogwr yn barod i ddal ymlaen i wasanaethu os byddai'r cynigion i gau yn cael eu cadarnhau. (Aelod Seneddol)

Mae ynadon yn wirfoddolwyr ymroddedig, a rhagwelir y byddant eisiau parhau i weinyddu cyfiawnder lleol o ansawdd uchel. Nid yw ble maent yn cyflawni eu dyletswyddau mor bwysig â'r gwasanaeth gwerthfawr y maent yn ei gynnig. Ni ofynnir i'r farnwriaeth ddatgan eu bwriad cyn lansio ymgynghoriad cyhoeddus.

Mae adleoli gwasanaethau'r llys a'r ffaith y bydd hyn yn arwain at effaith andwyol ar isadeiledd cyfreithiol Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd i ansefydlogi'r gymuned a thanseilio hyder lleol yn y system gyfiawnder am genhedlaeth. Ni ddylid hepgor y clymau o ymddiriedaeth rhwng rhanddeiliaid sydd wedi datblygu dros amser ac sy'n cynnal y system gyfiawnder leol, mewn dull mor gafalir. (Aelod Seneddol)

Mae'r proffesiwn cyfreithiol yn profi'r aneffeithlonrwydd yn y system cyfiawnder bob dydd, ac yn gweithio gyda staff y llys a'r farnwriaeth i gadw'r system i weithio, er gwaetha'r diffygion. Ni fyddai gennym gyfiawnder hebddynt, ac maen nhw'n teimlo rhwystredigaethau'r system bresennol ac yn deall yr achos am ddiwygio yn gryf. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau trosglwyddiad llyfn, a byddwn yn ymgysylltu'n effeithiol â phawb i sicrhau y cynhelir ac y gweinyddir cyfiawnder lleol o safon uchel.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr yn 2014-15 tua £367,000. Mae'r adeilad o safon dda yn gyffredinol. Fodd bynnag, petai'r llys yn parhau ar agor bydd angen cyflawni gwaith cynnal a chadw yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys cyflawni adolygiad strwythurol o'r adeilad.

Cododd rhai o'r ymatebion bryderon ynglŷn â'r gwerth am arian.

Mae buddsoddiad cyfalaf sylweddol wedi ei wneud i Lysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr i wella'r cyfleusterau yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac yn enwedig mae pob ystafell llys bellach yn hygyrch i bobl anabl. Mae'r llys hefyd yn darparu ystafelloedd ar wahân i ddiodefwyr, tystion a diffnyddion a'r flwyddyn ddiwethaf fe agorwyd dalfa newydd Bridewell, un o ddim ond 4 a ddefnyddir gan Heddlu De Cymru. Mae Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr bellach yn cwrdd â gofynion llys modern. O ganlyniad ychydig iawn o waith cynnal a chadw bydd ei angen i'r dyfodol. (Aelod Cynulliad)

Mae arolygon diweddar wedi amlygu rhagor o waith cynnal a chadw angenrheidiol dros y bum mlynedd nesaf. Yn ystod 2014, cyflawnwyd gwaith cynnal a chadw hanfodol yn Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr, a adeiladwyd yn y 1970au, er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r cyhoedd ei ddefnyddio. Ni allwn barhau i fuddsoddi arian i gyflawni gwaith cynnal a chadw ar ystad sy'n mynd yn hŷn ac yn dirywio. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gwario tua £500 miliwn y flwyddyn ar ei adeiladau. Byddwn yn darparu gwell mynediad at gyfiawnder os byddwn yn lleihau cost ein hystad ac ailfuddsoddi'r arbedion mewn gwella mynediad at systemau digidol, a gwella hygyrchedd a chyfleusterau yn beth fydd yn datblygu i fod yn lleoliadau llys a thribiwnlys craidd.

Nid yw ynadon Gorllewin Morgannwg yn cytuno gyda'r honiad na fydd angen 'dim gwaith galluogi i hwyluso'r symud'. Byddai angen gwneud gwaith sylweddol i baratoi Canolfan Cyfiawnder Port Talbot ar gyfer y mewnlifiad o waith ychwanegol; ac i gynnig y cyfleusterau diogelwch angenrheidiol ar gyfer carcharorion a'r rhai sydd yn y ddalfa sydd ar hyn o bryd yn ymddangos gerbron Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â gwaith sifil, teulu a thribiwnlys. Mae'r pwynt olaf hwn o gryn bryder. (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Nid ydym yn bwriadu creu cyfleusterau diogel yng Nghanolfan Cyfiawnder Port Talbot, a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith sifil, teulu a thribiwnlysoedd yn unig. Nid oes gan unrhyw un bron o'n adeiladau sifil, teulu a thribiwnlysoedd gyfleusterau dalfa na doc

ar hyn o bryd. Petai'r angen yn codi i ddwyn rhywun i'r llys o'r ddalfa, neu os byddai rhywun yn peri risg i ddiogelwch defnyddwyr y llys, byddai angen trosglwyddo'r achos i lys gyda'r cyfleusterau dalfa angenrheidiol.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio tua 50% ar hyn o bryd, felly nid yw'n cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llysoedd a fydd yn derbyn llwyth gwaith o Lysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr wneud hynny heb unrhyw waith galluogi. Bydd cyfuno'r llwyth gwaith yn gwella effeithiolrwydd ac yn ein galluogi i wneud arbedion.

Yn ddiweddar unwyd Tîm Troseddwyr Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr gyda Chastell Nedd/Port Talbot ac Abertawe i ffurfio Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar Cyfiawnder Ieuencid Bae'r Gorllewin. Mae'r uniad hwn - a anogwyd gan Lywodraeth Cymru - felly yn ymddangos braidd yn amhriodol petai gwaith Llys Ieuencid Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei drosglwyddo i Gaerdydd. Y canfyddiad yw nad yw Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Caerdydd o gystal safon ag un Pen-y-bont ar Ogwr a'r gynghrair newydd. (Mainc y Castellnewydd ac Ogwr)

Ni fyddai'n briodol i ni wneud sylwadau ar safon ymddangosiadol Gwasanaethau Troseddwyr Ifanc gwahanol. Delir â'r llwyth gwaith troseddol bob amser mewn llys ynadon sy'n gwasanaethu Ardal Cyfiawnder Lleol penodol, sy'n golygu y bydd pobl ifanc sy'n cael eu cyhuddo o gyflawni troseddau yn Ardal Cyfiawnder Lleol y Castellnewydd ac Ogwr yn cael eu gwrando yn awr yn Llys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg, unwaith y mae'r cynllun trosglwyddo wedi cael ei ddatblygu a'i weithredu.

Yn ôl yr wybodaeth a ddarparwyd i'n gweithgor, gwneir defnydd rheolaidd o'r doc diogel ar gyfer gwrandawiaid llys teulu oherwydd bod Carchar Parc a Chlinig Caswell yn ymyl; ynghyd â Taith Newydd, yr uned ddiogel newydd a agorwyd yn ddiweddar. (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Er ein bod wedi defnyddio'r cyfleuster troseddol hwn ar gyfer gwaith y llys sifil, teulu a'r triwlynlysoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid oes gennym gyfleusterau dalfa na chyfleusterau diogel yn y rhan fwyaf o'n hystad sifil, teulu a thriwlynlysoedd, ac felly gwneir trefniadau ar gyfer materion a fyddai wedi cael eu rhestru ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn unol â'n proses safonol ar gyfer achosion o'r fath yn awr.

Mae'r adran wedi bod yn symud gwaith o Ben-y-bont ar Ogwr gan gyfyngu ar fynediad at gyfiawnder a lleihau'r defnydd a wneir ohono. Rydym ar ddeall bod gwarantiau chwilio ar gyfer De Cymru i gyd yn cael eu cyflwyno ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y ffigyrau defnydd, er eu bod yn cymryd cryn dipyn o amser y farnwriaeth a chynghorwyr cyfreithiol. (Undeb Llafur PCS)

Er y gwrandawir ar geisiadau am warantau chwilio yn ystod oriau gwaith fel arfer, sy'n golygu y byddai'n rhaid i geiswyr ddod i'r llys yng Nghaerdydd, mae'n bosibl gwrando ar geisiadau o'r fath mewn lleoliadau eraill heblaw am ystafell llys, a hyd yn oed mewn cartref ynad. Cyflawnwyd y gwaith i ganoli achosion swmp fel rhan o gynllun cenedlaethol, ac nid oedd yn rhywbeth a wnaethom yng Nghymru i leihau'r defnydd mewn unrhyw lys penodol. Bydd y Weithdrefn Un Ynad yn galluogi un ynad sy'n eistedd yn rhywle ar wahân i ystafell llys, i ddelio â'r mwyafrif o achosion traffig, achosion DVLA ac achosion trwydded teledu yn y dyfodol. Felly bydd yr angen am gapasiti ystafelloedd llys yn lleihau.

Ni all y celloedd yng Nghaerdydd ymdopi gyda'r gwaith ychwanegol o Gaerffili a Phen-y-bont ar Ogwr. Ar hyn o bryd, ac o dro i dro, bydd angen trosglwyddo carcharorion o Gaerdydd i Ben-y-bont ar Ogwr pan fo eu celloedd yn llawn. (Aelod Cynulliad)

Mae capasiti'r celloedd wedi'i seilio ar nifer yr ystafelloedd llys sydd yn y lleoliad. Mae nifer y celloedd yn Llys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg yn briodol i'r nifer o ystafelloedd llys ar hyn o bryd.

Mae Canolfan Cyfiawnder Port Talbot yn adeilad mawr iawn gyda'r rhan fwyaf ohono yn cael ei ddefnyddio gan staff gweinyddol. Mae'r llysoedd yn yr adeilad hwn yn ategol i'w brif weithgaredd - gwaith gweinyddol. Nid yw'n orliwiad i ddweud mai yn ei hanfod, swyddfa yw'r adeilad hwn gyda pheth adnoddau llys. Os bydd y gwaith gweinyddol a wneir yn ganolfan yn symud, fel sy'n debygol, bydd rhannau enfawr o'r adeilad yn wag. (Barnwr Llywyddol Cymru)

Bydd oddeutu 80 o staff gorfodaeth a chydymffurfiaeth sy'n gweithio yng Nghanolfan Cyfiawnder Port Talbot, yn gorfod symud allan pan ddaw'r gwaith o breifateiddio Gorfodaeth Droseddol i ben. Fodd bynnag, ni chrybwyllir hyn yn y ddogfen ymgynghori. (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Nid ydym yn ystyried bod y goblygiadau ymarferol o drosglwyddo gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot wedi eu hystyried yn ddigonol. (Cymdeithas Barnwyr Cymru)

Yn dilyn y penderfyniad i gadw'r busnes cydymffurfiaeth a gorfodaeth fel rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM, bydd y staff gorfodaeth yn aros ym Mhort Talbot. Rydym wedi asesu capasiti Canolfan Cyfiawnder Port Talbot, ac rydym yn fodlon bod capasiti digonol yno.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Os.....oes capasiti pam na wnewch chi symud y gwaith triwlynlys o'r 5 o leoliadau yng nghanol dinas Caerdydd (sydd mewn cyflwr reit wael) i llys Pen-y-bont ar Ogwr. Byddai hyn yn caniatáu i'r hen adeiladau hyn gael eu gwerthu a chan eu bod yng nghanol y ddinas byddant yn dod â llawer iawn mwy o arian i'r coffrau na thir llys Pen-y-bont ar Ogwr. (Ynad Heddwch)

Nid oes gan Lysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr y capasiti i gymryd llwyth gwaith y triwlynlysoedd o Gaerdydd. Rydym yn cydnabod bod angen dod o hyd i ddatrysiad hirdymor yng Nghaerdydd, lle mae pum adeilad llys a thriwlynlys yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i adolygu ein hystad i asesu'r ffordd orau o gwrrd ag anghenion y cyhoedd yn yr ardal hon.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr a symud y llwyth gwaith sifil, teulu a thriwlynlysoedd i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot, a symud y llwyth gwaith troseddol i Llys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Hefyd, byddwn yn parhau i edrych am ddarpariaeth amgen.

Gweithredu

Cynhelir ymgynghoriad â'r Undebau Llafur Adrannol o ran yr effaith a gaiff y penderfyniad ar staff yn ystod y misoedd nesaf. Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cadw Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant ar agor.

Daeth cyfanswm o saith ymateb i law mewn perthynas â Chanolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant. O'r rhain roedd:

- tri gan ddefnyddwyr proffesiynol
- dau gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- un gan ynad
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, ac roedd saith yn gwrthwynebu.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Caerfyrddin 17 milltir i ffwrdd o Lanelli, 30 milltir i ffwrdd o Hwlfordd a 50 milltir i ffwrdd o Aberystwyth. Mae gwasanaeth trên a gwasanaeth bws rheolaidd o Gaerfyrddin i Lanelli. Mae amserlen reolaidd ond prin yn nodi'r gwasanaethau bws a gwasanaethau trên o Gaerfyrddin i Hwlfordd. Mae gwasanaethau bws yn cysylltu Caerfyrddin ac Aberystwyth.

Mae Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn gwasanaethu ardal ddaearyddol wledig.

Rydym yn gwrthwynebu'n gryf y bwriad i gau llysoedd Caerfyrddin o ystyried yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar fynediad at gyfiawnder a'r system gyfiawnder trwy'r iaith Gymraeg i ddefnyddwyr y llys a darparwyr gwasanaethau eraill. (Llywodraeth Cymru)

Roedd ein cynnig yn golygu y byddai'n rhaid bod wedi symud y rhan fwyaf o'r gwaith o lysoedd Caerfyrddin i Lanelli, sydd yn Sir Gaerfyrddin a lle mae'r nifer o staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant tua £18,000 yn 2014-15. Mae'r adeilad mewn cyflwr da.

Mae'r cynigion fel petaent yn cyfiawnhau cau llysoedd Caerfyrddin ar y sail eu bod 'mewn cyflwr gwael'. O fewn y 3 i 4 blynedd diwethaf fe ailwampwyd y ddau lys i safon uchel iawn a hynny ar gryn gost i bwrs y wlad. (Cyfreithiwr)

A dweud y gwir fe agorwyd canolfan gwrandawiadau Sifil Caerfyrddin dim ond ychydig o flynyddoedd yn ôl a hynny yn ei leoliad presennol. Ymddengys bod hyn

yn wastraff llwyr o arian cyhoeddus ac nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl.
(Cyfreithiwr)

Mae Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin yn Hill House yn ymddangos i roi gwerth da am arian o gymharu gyda'r ffigyrau a roddwyd mewn perthynas â llysoedd eraill. Mae'r costau rhedeg yn £18,000 y flwyddyn ac yn cynnwys defnydd gan yr Uchel Lys o'i gymharu â llysoedd eraill y bwriedir eu cau.
(Cyfreithwyr)

Rydym wedi synnu bod y Llywodraeth yn ystyried ar sail cost, i gau'r ganolfan llys a thribiwnlys yng Nghaerfyrddin, a hynny o ystyried y swm o arian cyhoeddus a wariwyd arno yn ddiweddar gan y Llywodraeth. (Canolfan Cyngor ar Bopeth Caerfyrddin)

Cafodd Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant ei ailwampio fel canolfan wrandawiadau pan adnewyddwyd y brydles yn 2012. Roedd y gwariant hwn yn angenrheidiol i'r llys symud o'r safle yn Nheras Picton. Mae cadw Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant ar agor yn ein galluogi i barhau i ddefnyddio adeilad gweddol newydd, gyda chyfleusterau da, o dan brydles hyblyg sy'n gost effeithiol ac yn rhoi gwerth am arian oherwydd bod ei gostau gweithredu yn weddol isel.

Effeithlonrwydd gweithredol

Ar hyn o bryd, mae'r gyfradd defnyddio tua 51% o'r capasiti.

Mae swyddfeydd CAF/CASS wedi eu lleoli yn yr un adeilad â chanolfan sifil Caerfyrddin ac mae hynny'n gwneud synnwyr gan fod nifer o wrandawiadau teulu yn digwydd yno. (Cyfreithiwr)

Mae Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAF/CASS) Cymru yn rhannu'r un adeilad â'r llys. Maent yn rhan o Lywodraeth Cymru, sef dalwyr y brydles i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar hyn o bryd.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Yn yr un modd, gellid cynnal gwrandawiadau llys teulu eto yn Neuadd y Sir gan mai felly yr oedd hi tan yn gymharol ddiweddar. Dylid ystyried trosglwyddo gwaith o adeilad Hill House i Neuadd y Sir gan y byddai hyn yn sicrhau mynediad at gyfiawnder yn lleol i bawb sy'n gysylltiedig gydag achosion o'r math hyn... (Cymdeithas yr Ynadon Dyfed)

"...yn hytrach na chau'r holl lysoedd yng Nghaerfyrddin, dylid ystyried cyfuno pob gwrandawriad yn Hill House/Teras Picton. Derbynnir nad yw'r adeilad hwn yn addas ar gyfer achosion lle disgwylir i'r diffynnydd gael ei gadw yn y ddalfa ar unwaith neu gael dedfryd yn y carchar ar hyn o bryd, ond bydd yn amlwg o achosion penodol fod hyn yn debygol ac yna bydd modd i staff y llys restru'r materion hynny mewn llys gyda'r cyfleusterau priodol. Gwnaethpwyd hyn flynyddoedd maith yn ôl yn dilyn colli cyfleusterau'r ddalfa yn Llys Ynadon Rhydaman cyn cau'r adeilad, ac fe weithiodd yn dda. (Cyngor Sir Gâr)

Mae oedran yr adeilad, costau cynnal a chadw a diffyg cyfleusterau addas yn gysylltiedig â defnyddio Neuadd y Sir, Caerfyrddin, ac mae'r cyfyngiadau ar newidiadau strwythurol o

ganlyniad i'r ffaith ei fod yn adeilad rhestredig â statws Gradd II, yn gwneud cydleoli'r gwaith sifil, teulu, tribiwnlys, profiant a throseddol yn y lleoliad hwn yn anodd iawn o safbwynt gweithredol.

Fel y cydnabyddir, heb fuddsoddiad, nid yw Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn addas ar gyfer gwaith lle cedwir diffynyddion yn y ddalfa. Gallai fod yn bosibl i ddefnyddio'r cyfleuster cynadledda fideo presennol yng Nghaerfyrddin, drwy drefniant ymlaen llaw, i ddarparu mynediad i'r defnyddwyr hynny na allant deithio i Lanelli ar gyfer gwrandawiadau troseddol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cadw Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant ar agor.

Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llysoedd Barn Caerfyrddin a symud y gwaith Llys y Goron i'r Llys y Goron yn Abertawe, a'r gwrandawiadau llys ynadon i Lys Ynadon Llanelli.

Daeth cyfanswm o 18 ymateb i law mewn perthynas â Llysoedd Barn Caerfyrddin. O'r rhain roedd:

- pedwar gan aelodau o'r farnwriaeth
- tri gan gorff sector cyhoeddus arall
- tri gan ddefnyddwyr proffesiynol
- tri gan ynadon
- tri gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- un gan aelod o staff
- un gan bartner yn y system cyfiawnder troseddol
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, roedd un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 16 yn gwrthwynebu, ac roedd un yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Caerfyrddin 27 milltir i ffwrdd o Abertawe ac 17 milltir i ffwrdd o Lanelli. Mae gwasanaethau trên a bws rheolaidd yn cysylltu'r lleoliadau hyn.

Mae Llysoedd Barn Caerfyrddin yn gwasanaethu ardal ddaearyddol wledig yn bennaf. Mae cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus yn dda ac mae gwasanaeth bws lleol rheolaidd yn cysylltu Caerfyrddin â chanolfannau poblogaeth leol.

Roedd rhai o'r ymatebion yn cyfeirio at faterion yn ymwneud â mynediad at gyfiawnder.

Mae Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir) wedi bod yn rhan annatod o dref Caerfyrddin am bron i 250 o flynyddoedd, a'r unig lys yn rhanbarth Dyfed sy'n gallu ymdrin gyda gwaith Llys y Goron. (Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad)

Rydym yn gwerthfawrogi bod hen draddodiadau'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder, ond mae rhaglen ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i adeiladu ar gryfder ac annibyniaeth ein system cyfiawnder i greu gwasanaeth modern ac effeithlon i gwrdd ag anghenion yr unfed ganrif ar hugain, a gweithredu gyda'r adnoddau sydd ar gael. Rydym yn chwilio am leoliadau eraill i ddeall a ellir darparu cyfleuster Llys y Goron yn ôl yr angen ar gyfer achosion lleol penodol, yn hytrach na chadw presenoldeb parhaol ar sail y defnydd a wneir o'r llys ar hyn o bryd.

...Caerfyrddin yw'r prif leoliad gweinyddol ar gyfer cyrff cyhoeddus a thrydydd sector sy'n gwasanaethu Gorllewin Cymru, yn ogystal â bod y brif dref yng

Ngorllewin Cymru. I sicrhau mynediad at gyfiawnder, ystyrir ei bod yn hanfodol dal gafael ar lys ynadon Caerfyrddin. (Cymdeithas yr Ynadon)

Cydnabyddir bod Caerfyrddin yn cael ei ystyried fel canolbwynt Sir Gâr. Mae arnom angen symud tuag at ystad gydag adeiladau mwy, sy'n gallu cael eu defnyddio mewn modd hyblyg. Mae llys Llanelli, yn Sir Gâr, yn lys amlawdurdodaeth, sydd â'r capasiti i gymryd y llwyth gwaith troseddol o Gaerfyrddin. Gellir ailfuddsoddi'r arbedion a'u defnyddio i ddatblygu ein hystad graidd ar gyfer y dyfodol.

..ni fyddai'n briodol i leihau capasiti Llys y Goron i bedwar Llys y Goron i wasanaethu Gogledd Morgannwg a Dyfed Powysnid wyf yn ystyried ei bod yn addas i gau Llys y Goron Caerfyrddin a Neuadd y Sir Abertaweyr wyf yn derbyn nad oes angen y ddau. Dylid dewis rhwng y ddau (a) ar sail y gost o redeg y ddwy ganolfan (b) ystyriaethau o ran mynediad at gyfiawnder a (c) materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. (Barnwr Llywyddol Cymru)

[Mae'r cynnig] yn anfon neges glir i'r cymunedau hynny nad oes ganddynt ran ystyrion yn y system gyfiawnder ac na allent bellach ddisgwyl i gael gwrandao eu hachos yn Hwlfordd neu hyd yn oed yng Nghaerfyrddin, ond bod disgwyl iddynt deithio i Abertawe. Mae'n debyg eu bod yn disgwyl y byddai eu hawl o roi tystiolaeth o flaen rheithwyr sy'n dod o gymuned debyg iddynt, gyda dealltwriaeth o'u cymuned a'u hamgylchfyd, yn cael ei gynnal [ac i] allu rhoi eu tystiolaeth yn Gymraeg gerbron rheithwyr sy'n siarad yr un iaith â hwy. (Siambrau'r Bargyfreithwyr)

Rydym yn ymroddedig i leihau'r angen i fod yn bresennol yn y llys heb fod angen, ac yn gweithredu ffyrdd digidol eraill o weithio i gyflawni hyn. Rydym yn chwilio am ddarpariaeth amgen ar gyfer Llys y Goron y tu allan i Abertawe yn ôl yr angen, yn hytrach na phresenoldeb parhaol.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llysoedd Barn Caerfyrddin tua £162,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15. Adeiladwyd Neuadd y Sir ym 1777. Yn gyffredinol, mae'r adeilad mewn cyflwr da ar ôl y gwaith ailwampio a gyflawnwyd yn 2010-11. Ond, er bod yr adeilad mewn cyflwr da yn strwythurol, nid yw'n cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, ac nid yw'r adeilad yn cwrdd ag anghenion busnes modern. Nid oes digon o le i gadw dioddefwyr, tystion a diffynyddion ar wahân, nid oes modd cadw'r farnwriaeth a'r rheithwyr ar wahân, ac mae'r cyfleusterau yn wael ar gyfer tystion a dioddefwyr. Gan nad oes doc modern ar gyfer cerbyd ar y safle, mae carcharorion yn cael eu hebrwng i'r adeilad ar y palmant cyhoeddus sydd y tu allan i'r adeilad.

Oherwydd bod Neuadd y Sir yn adeilad rhestredig Gradd II, byddai angen caniatâd adeiladau rhestredig cyn y gellid cyflawni unrhyw waith adeileddol angenrheidiol (sydd ei angen i wneud yr adeilad yn fwy modern).

Yn 2010, fe ailwampwyd Llys Caerfyrddin yn sylweddol. Roedd y costau adeiladu yn £948,300; ffioedd yn £90,710; gyda chyfanswm o £1,039,010. Byddai cau'r llys hwn yn wastraff sylweddol o arian cyhoeddus. (Cymdeithas yr Ynadon)

Roedd y gwaith ailwampio a gyflawnwyd yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin yn 2010-11 yn cynnwys gwaith angenrheidiol i atal y strwythur rhag dirywio, ac i sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel i'w ddefnyddio. Atgyweiriwyd y to, adnewyddwyd y gwaith carreg a

chwbllhawyd tasgau bychain eraill. Mae gwaith cynnal a chadw parhaus dal yn angenrheidiol yn y llys, yn ogystal â gwaith i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010. Er gwaethaf y buddsoddiad, mae'r adeilad yn cael ei danddefnyddio, ac felly nid yw'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel, sef tua 11%, ac ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llys a fydd yn derbyn llwyth gwaith o Lysoedd Barn Caerfyrddin wneud hynny heb unrhyw waith galluogi.

Dywedodd Natalie Ceeney, Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM ar 23 Medi 2015 "yr hyn sy'n fy mhoeni i yw'r gost ddynol. Yn ein llysoedd troseddol, gall tystion, dioddefwyr a diffynnyddion aros am flynyddoedd hyd nes daw achos i dreial, gan beri anrhefn i fywydau wrth i bobl aros am benderfyniad cyn gwybod sut y gallant symud ymlaen" Mae ynadon Gorllewin Morgannwg yn cytuno'n llwyr gyda hi ac yn pendroni sut y bydd lleihau gofod llys y Goron yn Abertawe a Chaerfyrddin yn ateb ei phryderon. (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Mae penderfyniadau ynghylch rhestru barnwrol yn cael eu gwneud i sicrhau y gweinyddir cyfiawnder yn y modd mwyaf effeithlon, gan ddefnyddio'r ystad sydd ar gael o fewn yr ardal cyfiawnder lleol. Ni wneir penderfyniadau ynghylch rhestru gydag unrhyw ystyriaeth ynglŷn â dyfodol unrhyw lys. Rydym wedi asesu'r sefyllfa, ac mae digon o gapasiti i dderbyn y llwyth gwaith a fydd yn cael ei drosglwyddo. Bydd y trefniadau rhestru yn sicrhau y cynhelir yr amseroedd aros isel da sydd yn y llys ynadon ar hyn o bryd, ac o bosib eu gwella trwy effeithlonrwydd hyd yn oed. Eisteddodd Llys y Goron am gyfanswm o 18 diwrnod yn ystod 2014-15, ac ni ddylai cau'r llys gael unrhyw effaith anffafriol ar yr amseroedd aros am dreialon a wrandawir yng Nghaerfyrddin ar hyn o bryd.

Bydd y cynnig hwn - yn creu sefyllfa a fydd yn golygu ein bod ni [Llys y Goron Abertawe] yn gweithio trwy'r amser ar gapasiti llawn gyda dim modd o ddelio gydag unrhyw argyfyngau nas rhagwelwyd. (Cymdeithas Barnwyr Cymru)

Rydym yn edrych i weld a ellir newid y cyfleusterau sydd eisoes yn bod heb fynd i gostau mawr, er mwyn gallu gwrandao ar rai achosion llys y Goron lleol yng Ngorllewin Cymru ar sail y cyfraddau defnydd presennol.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Mae'r Cyngor Sir yn cydnabod bod y gwasanaeth llys yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a bod angen rhesymoli'r ystad llysoedd. Awgrymir fodd bynnag yn hytrach na chau pob llys yng Nghaerfyrddin, y dylid ystyried canoli pob gwrandawriad yn Hill House/ Teras Picton. Derbynnir nad yw'r lleoliad hwn yn addas ar hyn o bryd ar gyfer achosion lle bo diffynnydd yn debygol o gael ei remandio i garchar neu'n debygol o gael ei ddedfrydu i garchar, ond bydd yn amlwg o achosion penodol fod hyn yn debygol ac yna bydd modd i staff y llys restru'r materion hynny mewn llys gyda'r cyfleusterau priodol. Gwnaethpwyd hyn flynyddoedd maith yn ôl yn dilyn colli cyfleusterau'r ddalfa yn Llys Ynadon Rhydaman cyn cau'r adeilad, ac fe weithiodd yn dda. (Cyngor Sir Gâr)

Fel y cydnabyddir, heb fuddsoddiad, nid yw Canolfan Wrandawriadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant yn addas ar gyfer gwaith lle cedwir diffynnyddion

yn y ddalfa. Gallai fod yn bosibl i ddefnyddio'r cyfleuster cynadledda fideo presennol yng Nghaerfyrddin, drwy drefniant ymlaen llaw, i ddarparu mynediad i'r defnyddwyr hynny na allant deithio i Lanelli ar gyfer gwrandawriadau troseddol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu gwerthuso, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llysoedd Barn Caerfyrddin a symud y gwaith llys y goron i'r Llys y Goron yn Abertawe a'r gwrandawiadau llys ynadon i Lys Ynadon Llanelli.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llysoedd Barn Caerfyrddin. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau, unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol, a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Rhoddir ystyriaeth yn y dyfodol i'r posibilrwydd o symud gwaith sy'n dod o'r de i ddalgylch Dolgellau i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

Daeth cyfanswm o 21 ymateb i law mewn perthynas â Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau. O'r rhain roedd:

- chwech gan gorff sector cyhoeddus arall
- pedwar gan bartneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol
- tri gan ddefnyddwyr proffesiynol
- dau gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- dau gan ynadon
- dau gan aelodau o'r farnwriaeth
- un gan aelod o'r cyhoedd
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 19 yn gwrthwynebu ac roedd dau yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau 43 milltir i ffwrdd o Gaernarfon. Mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Dolgellau a Chaernarfon, ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn aml. Mae bws yn teithio'r ffordd hon ond mae'n amrywio o unwaith bob dwy awr i unwaith bob pedair awr, ac mae'r daith yn cymryd oddeutu dwy awr. Mae Dolgellau 34 milltir i ffwrdd o Aberystwyth, ac mae'r daith yn cymryd 1 awr mewn car. Mae gwasanaeth bws rheolaidd rhwng Dolgellau ac Aberystwyth, ac mae'r daith yn cymryd awr a chwarter.

Roedd rhai o'r ymatebion yn sôn am fynediad at gyfiawnder fel rhan o'u hymateb.

Mae'r adroddiad yn cydnabod nad yw gwasanaethau i Gaernarfon yn rhedeg yn aml. Nid yw'r gwasanaethau sy'n cysylltu yn Nolgellau yn rhedeg yn aml ychwaith, ac yr un fath â'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd gydag apwyntiadau yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor, gall triniaeth syml olygu diwrnod cyfan o deithio.
(Academydd)

Rydym yn gwerthfawrogi bod cysylltiadau trafniadaeth cyhoeddus gwael yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth bws yn rheolaidd, er nad yw'n rhedeg yn aml weithiau. Mewn oes o weithio'n fwy digidol, ni fydd rhaid i ddefnyddwyr fod yn bresennol mewn gwrandawriadau yn bersonol bob amser.

Mae'r Cyngor yn credu ei bod yn hollol annerbyniol y dyddiau hyn i ddisgwyl i ddefnyddwyr y gwasanaeth wynebu taith ddwyffordd o 2 awr a 30 munud ar y lleiaf (o ardal Dolgellau i Gaernarfon ac yn ôl) gyda cherbyd modur. Os nad oes ganddynt gerbyd modur, a bod rhaid iddynt ddibynnu ar gysylltiadau trafndiaeth a gwasanaethau cyhoeddus i gyrraedd mewn da bryd ar gyfer gwrandawiadau llys, gall yr amser teithio gynyddu i fod yn nifer o oriau. (Cyngor Tref Dolgellau)

Nid yw cael mynediad at gyfiawnder yn ymwneud â bod yn agos at lys yn unig. Rydym yn ymroddedig i ddarparu dulliau amgen fel na fydd angen teithio. Gallai rhai teithiau ar drafndiaeth gyhoeddus fod yn anodd o Ddolgellau, ond nid yw hyn ar ei ben ei hun yn rheswm i gadw'r llys ar agor. Rydym yn edrych i weld a ellir cyflawni'r llwyth gwaith isel sy'n deillio o'r ardal hon mewn unrhyw leoliad arall, heb yr angen am bresenoldeb parhaol.

...hefyd efallai bod pwynt cryf ynghylch mynediad at gyfiawnder mewn perthynas â chau Llys Ynadon Dolgellau. Petai adeilad cyhoeddus arall ar gael, a fyddai'n arbed costau'n sylweddol, byddwn yn argymhell cadw canolfan wrandawiadau yn Nolgellau yn ddiymdroi. Dylai GLITEM Cymru edrych i mewn i'r posibilrwydd hwn. (Barnwr Llywyddol Cymru)

Nid yw'r Llys y Goron wedi eistedd yn Nolgellau ers cyn 2007, heb unrhyw gŵyn, a dim ond unwaith yr wythnos mae'r Llys Ynadon yn eistedd. Nid oes angen i'r rhan fwyaf o aelodau'r gymuned ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan y llys, ac i'r defnyddwyr llys hynny sy'n cael problemau wrth deithio i leoliadau llysoedd eraill, bydd y llys yn ystyried ceisiadau i gynnal y busnes mewn ffordd arall. Hefyd, mae'r ystod o fusnes y llys y gellir ei gynnal dros y ffôn neu ar y rhyngwyd yn cynyddu. Mae'n bosib cwblhau rhai achosion angharcharadwy, fel yr achosion y delir â nhw o dan "*Cofnodi Ple*" ar-lein, heb fod angen i bartion ddod i'r llys. Fodd bynnag, rydym yn edrych i weld pa ddarpariaeth arall a allai fod ar gael yn Nolgellau.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15 tua £57,000. Yn gyffredinol, nid yw'r adeilad o safon foddhaol ar gyfer busnes modern. Nid oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynydion yn ddigonol, a chan nad oes doc modern ar gyfer cerbyd ar y safle, mae carcharorion yn cael eu hebrwng i'r adeilad ar y palmant cyhoeddus sydd y tu allan i'r adeilad. Petai'r llys yn aros ar agor, byddai angen cyflawni gwaith cynnal a chadw a fyddai'n cynnwys gosod toiledau newydd, darparu system rheoli mynediad newydd, rhannau newydd i system larwm tân a larwm argyfwng yr adeilad, diweddarau'r system CCTV a gwaith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylid nodi, oherwydd bod adeilad y llys yn adeilad rhestredig Gradd II, byddai angen caniatâd adeiladau rhestredig cyn gellir cyflawni unrhyw waith adeileddol angenrheidiol (sydd ei angen i wneud yr adeilad yn fwy modern).

Byddai cau Dolgellau fel rhan o ymarfer arbed arian yn unig yn golygu cau un o'r adeiladau llys prin yng Nghymru lle defnyddir yr iaith Gymraeg fel iaith gyntaf yn y llys. Yn ein barn ni, mae hyn yn mynd yn groes i ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau ei bod yn cadw'r sefydliadau hynny lle mae Diwylliant Cymreig yn fyw ac yn parhau i gael ei ddefnyddio. (Cymdeithas y Cyfreithwyr, Canolbarth Cymru)

Bydd llwyth gwaith Dolgellau yn trosglwyddo i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, lle siaradir y Gymraeg yn bennaf yn y llys. Hefyd, mae systemau cyfieithu

sefydlog yng Nghaernarfon i hwyluso darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd gan sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei recordio. Mae Uned yr iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM, lle mae'n tîm o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd, yn gweithio yng Nghaernarfon. Felly, nid ydym yn credu ein bod yn anghofio am ein hymrwymiaidau i'r Cynllun Iaith Gymraeg.

“Byddai symud y gwrandawiadau cyfiawnder i Gaernarfon neu Aberystwyth hefyd yn creu costau ychwanegol i eraill sydd ynghlwm â'r broses, megis yr heddlu, cyfreithwyr, a swyddogion y Cyngor ei hun”. (Cyngor Sir Gwynedd)

“Teimlir mai cynnal y gwasanaeth y Llys yw'r flaenoriaeth. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried cau neu symud y llys heb werthusiad manwl o'r cyfleusterau ac adeiladau eraill yn nhref Dolgellau y gellid eu defnyddio yn lle'r adeilad rhestredig Gradd II presennol.” (Aelod Seneddol)

Gall bod yn bresennol yn y llys ofyn llawer o amser, ac yn aml mae'n broses aneffeithiol i bawb sy'n gysylltiedig â hi. Byddai dull mwy cymesur o ran bod yn bresennol yn y llys yn cael gwared â'r amser a wastraffir a byddai'n cynyddu hyder mewn gweinyddu cyfiawnder. Mae'n ddyletswydd arnom i gynnig ffyrdd mwy cyfleus i ddinasyddion ryngweithio â'r system cyfiawnder, gan gynnwys awdurdod y llys ar gyfer achosion difrifol ar yr un pryd. Er y bydd yr amser a chostau teithio yn fwy ar gyfer rhai, bydd yn llai i eraill.

Nodir yr Asesiad o Effaith, a derbynnir nad yw'n ymarferol bellach i ddefnyddio'r adeilad fel Llys y Goron, ac nid oes gwrthwynebiad i'r rhan hon o'r cynnig. (Mainc Gwynedd)

Nid yw'n ymarferol bellach i wrando ar achosion Llys y Goron yn y llys hwn.

Effeithlonrwydd gweithredol

Yn ystod 2014-15, roedd cyfradd defnyddio Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau tua 14% o'r capasiti, ac felly ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Mae'r llysoedd sy'n derbyn yn gallu derbyn y llwyth gwaith heb orfod cyflawni unrhyw waith alluogi, a bydd yn darparu effeithlonrwydd gwell a galluogi i Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM wneud arbedion.

Rwy'n cefnogi'r awgrym i'r Llys y Goron yng Nghaernarfon i ddod yn llys amibwrpas sy'n gwasanaethu pob awdurdodaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru. Yn amlwg, ni ddylid rhoi'r cynigion arfaethedig i gau llysoedd Caergybi, Llangefni, Canolfan Cyfiawnder Sifil a Theulu Caernarfon a Dolgellau ar waith nes bydd yr holl waith angenrheidiol wedi ei wneud i ganiatáu trosglwyddo gwaith y llysoedd hynny. (Barnwr Llywyddol Cymru)

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cynnal adolygiad o'r costau ychwanegol a fyddai'n berthnasol i'r llu petai'r cynigion arfaethedig i gau'r llysoedd ynadon yn Nolgellau, Prestatyn a Chaergybi yn cael eu gweithredu. O'r cyfanswm o 356 o ymweliadau gan swyddogion yr heddlu i'r safleoedd dan sylw bob blwyddyn, bydd yr heddlu yn wynebu cynnydd o tua 222 awr mewn amser teithio (8.700 milltir). Bydd hyn yn dod i £6,700 ychwanegol mewn costau teithio ac amser o ran adnoddau. (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru)

O ystyried y llwyth gwaith isel yn Nolgellau, sef tua 14% (mae'r llys ar agor un diwrnod yr wythnos fel arfer), ni ddylai'r effaith ar Heddlu Gogledd Cymru fod yn sylweddol, a bydd

cau'r tri llys yn golygu bod peth effeithlonrwydd oherwydd na fydd angen teithio rhwng ein hadeiladau, er, rydym yn derbyn y bydd hyn yn effeithio mwy ar rai o'i gymharu ag eraill. Byddwn yn gweithio gyda'n hasiantaethau partner i ddeall a rheoli'r effaith y byddai cau'r llysoedd hyn yn ei gael, a bydd y rhain yn creu rhan o'n cynlluniau gweithredu. Er enghraifft, byddai defnyddio mwy ar gysylltiadau byw yn lleihau neu'n cael gwared â'r angen i swyddogion yr heddlu ddod i'r llys i roi tystiolaeth.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

...bydd popeth drwy gyswllt fideo yn y pen draw, ond mae newid graddol fel hyn yn gofyn am awdurdod uwch ar draws y System Cyfiawnder Troseddol, buddsoddiad priodol, achos busnes manwl a rhaglen waith ar draws y System Cyfiawnder Troseddol i gyflawni ei llawn potensial... yn y dechrau [os bydd y llys yn cau] bydd yn rhaid i swyddogion yr heddlu fynychu'r llys yn bersonol dros dro... yr unig adeiladau cyhoeddus/ dinesig a allai gael cyfleusterau cyswllt fideo o bosibl yn ardal Dolgellau yw'r orsaf heddlu a swyddfeydd y cyngor yng Nghae Penarlag. Nid yw'r un o'r ddau yn ddelfrydol. (Comisiynydd Heddlu a Throseddau Gogledd Cymru)

Rydym yn gwneud cynnydd o ran darparu gwasanaeth wedi'i foderneiddio. Mae sgriniau digidol wedi cael eu cyflwyno mewn sawl adeilad llys ac mae system rheoli achosion ddigidol ar gyfer gweinyddu achosion troseddol yn datblygu'n dda. Bydd "*Cofnodi Ple*" ar-lein, ar gyfer troseddau diannod, angharcharadwy, er enghraifft tocynnau goryrru, sydd ond ar gael yng Ngwent ar hyn o bryd, yn golygu na fydd angen i'r diffynnydd ddod i'r llys. Hefyd, rydym yn trafod ehangu'r defnydd a wneir o gysylltiadau byw i'r heddlu eu defnyddio i ddarparu tystiolaeth heb fod yn bresennol yn y llys. Ni fydd y llys yn cau nes y byddwn wedi dod o hyd i ddarpariaeth amgen sy'n addas ac yn lleol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwytiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu gwerthuso, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol, a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon. Rhoddir ystyriaeth yn y dyfodol i'r posibilrwydd o symud gwaith sy'n dod o'r de i ddalgylch Dolgellau i Ganolfan Cyfiawnder Aberystwyth.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Ynadon Caergybi

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Ynadon Caergybi a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol.

Daeth cyfanswm o 18 ymateb i law mewn perthynas â Llys Ynadon Caergybi. O'r rhain roedd:

- chwech gan gorff sector cyhoeddus arall
- pedwar gan bartneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol
- tri gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- dau gan ddefnyddwyr proffesiynol
- un gan aelod o'r farnwriaeth
- un gan ynad
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 17 yn gwrthwynebu ac roedd un yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Llys Ynadon Caergybi 29 milltir i ffwrdd o Gaernarfon, gyda gwasanaeth bws rheolaidd drwy Fangor. Hefyd, mae gwasanaeth trên o Gaergybi i Fangor, a bws o Fangor i Gaernarfon. Mae Ynys Môn yn ardal wledig i raddau helaeth, ond mae hefyd agwedd ddiwydiannol i'r ardal. Caergybi yw'r dref gyda'r boblogaeth fwyaf ar Ynys Môn.

Dylid nodi bod Cyngor Tref Caergybi yn ystyried y llys yn adeilad pwysig o fewn Ardal Gadwraeth Caergybi. Felly byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw waith a fyddai'n newid ymddangosiad neu strwythur adeilad y llys.

Mae'r cynigion arfaethedig i gau llysoedd yng Nghaergybi a Llangefni yn golygu na fydd yn hawdd i lawer o'r preswylwyr ar Ynys Môn gael mynediad at gyfiawnder. (Aelod Seneddol)

Rwy'n credu bod Ynys Môn yn haeddu ac angen ei llysoedd ei hun. Rydym wedi gweld system y llysoedd yn lleihau yn barod drwy fentrau megis Rhaglen Diwygio Ystad y Llysoedd a sefydlwyd gan y Llywodraeth Glymblaid yn 2010. Fel sir ar wahân, mae'n ymddangos yn rhesymegol i gadw system y llysoedd yn hytrach na.... bod angen i breswylwyr deithio oddi ar yr Ynys i sicrhau cyfiawnder. (Cyngor Sir Ynys Môn)

Nid yw cael mynediad at gyfiawnder yn ymwneud â bod yn agos at lys yn unig. Rydym yn ymroddedig i ddarparu dewisiadau eraill ar wahân i deithio i'r defnyddwyr llys hynny a fyddai fel arall yn gorfod teithio'n bell ac yn cael trafferthion i gyrraedd llys. Er, rydym yn edrych ar y posibilrwydd o gynnal gwrandawriadau mewn lleoliad arall ar sail ran-amser ar Ynys Môn, ond efallai mai yn Llangefni fydd hyn.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Ynadon Caergybi tua £85,000 yn 2014-15. Mae'r adeilad yn gyffredinol o safon wael. Nid oes modd gwahanu dioddefwyr, tystion a diffynyddion yn ddigonol. Mae angen cyflawni gwaith cynnal a chadw i atgyweirio'r to fflat oherwydd ei fod yn gollwng dŵr, ail blastro'r holl waliau mewnol, rhoi gorchuddiadau llawr newydd, rhoi allyrwyr gwres ac ail addurno manau cyhoeddus yn y llys.

Rwy'n pryderu na fydd marchnad yng Ngogledd Cymru i werthu'r adeiladau llys y mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn bwriadu eu cau. Yn 2013, dywedwyd ym mhapur newydd yr Independent bod tua 100 o adeiladau llys yng Nghymru a Lloegr yn wag ar ôl i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder fethu â'u gwerthu. Mae'n werth nodi y bydd costau sylweddol yn parhau i fod yn berthnasol i'r adeiladau hyn os na chânt eu gwerthu, hyd yn oed os ydynt yn sefyll yn wag. Mae adeilad y llys yn Nolgellau yn adeilad rhestredig Gradd 2, a byddai angen cael caniatâd cynllunio ar gyfer cyflawni unrhyw waith i wella golwg neu strwythur adeilad y llys yng Nghaergybi oherwydd ei leoliad o fewn yr ardal gadwraeth. (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru)

Mae gan dîm Ystadau Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM gyfrifoldeb dros werthu ein hadeiladau'n gyflym, a chael pris amdanynt sy'n rhoi'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Mae'n rhaid i Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM leihau costau'r ystad ac ailfuddsoddi'r arbedion. Mae'n anodd newid a gwella adeilad sydd o fewn ardal gadwraeth, ac mae hyn yn ein rhwystro rhag gwneud defnydd mwy effeithlon o'r llys yng Nghaergybi. Mae'r llys a fydd yn derbyn y gwaith mewn cyflwr rhagorol, ac mae'n cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel iawn, sef tua 20%, ac ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llys a fydd yn derbyn llwyth gwaith o Lys Ynadon Caergybi wneud hynny heb unrhyw waith galluogi.

..bydd y gostyngiad yn niferoedd y llysoedd yn niweidiol i weinyddu cyfiawnder yn gyffredinol. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol fel y mae'r boblogaeth leol yn cynyddu, a'r llwyth gwaith y bydd y llysoedd yn ei brosesu gyda hynny. (Aelod Seneddol)

.. rydym yn pryderu ynghylch capasiti Canolfan Cyfiawnder Caernarfon gan y bydd yn derbyn gwaith wedi'i drosglwyddo o Lys Sifil a Llys Teulu Caernarfon, Llys Ynadon Caergybi, Llys Ynadon Llangefni, a Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau. (Llywodraeth Cymru)

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn archwilio ymarferoldeb ffyrdd eraill o gymryd rhan mewn gwrandawriadau llys, gan gynnwys defnyddio technoleg gyswilt fideo; gwrandawriadau dros y ffôn; a chaniatáu partïon i gyflwyno cynrychiolaethau ysgrifenedig. Os oes angen bod yn bresennol mewn gwrandawriad, gellir defnyddio adeiladau dinesig neu adeiladau cyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawriadau lle mae'r gofynion diogelwch yn isel. Rydym yn edrych i mewn i'r posibilrwydd hwn ar Ynys Môn.

Oherwydd bod Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, sef y ganolfan a fydd yn derbyn y llwyth gwaith, yn cael ei thanddefnyddio, mae'n rhoi'r cyfle i ni weithio'n fwy effeithlon a pharhau i ddarparu mynediad at gyfiawnder. Gall adeiladau mwy hwyluso rhestru achosion yn fwy hyblyg ac effeithlon, a rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr o ran pa bryd y bydd eu hachos yn cael ei wrando. Hefyd, mae cynlluniau i adeiladu pedwar ystafell llys ychwanegol yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon i gymryd y gwaith sifil, teulu a thriwilysoedd o Gaernarfon a Llangefni.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Byddai cau Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni yn arbed oddeutu £329,00 allai fynd tuag at ddiweddarau adeilad Llys Ynadon Caergybi, ac felly yn arbed y gost o ddarparu 4 llys ychwanegol yng Nghaernarfon. (Mainc Ynys Môn)

Ni fyddai'r cynnig hwn yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr. Mae cyfyngiadau ar sut y gellir addasu llys Caergybi oherwydd bod yr adeilad o fewn Ardal Gadwraeth Caergybi. Mae'r llys mewn lleoliad anodd yn Llangefni i alluogi gweithredu'n effeithiol, hyd yn oed gyda'r arbedion o ganlyniad i gau Llys Ynadon Caergybi. Mae angen buddsoddiad i gyflawni gwaith cynnal a chadw sydd yn aros i'w wneud yng Nghaergybi a Llangefni, ac nid yw'r naill neu'r llall yn addas i gymryd gwaith ei gilydd. Byddai cau'r ddau adeilad sy'n dirywio yn arbed costau gweithredu a chynnal a chadw, a ellir ei ailfuddsoddi i wneud mynediad at gyfiawnder yn fwy teg i'r holl ddefnyddwyr. Ac yng Nghaernarfon, bydd yn creu llys sy'n gallu delio yn effeithlon â gwaith y llysoedd a thriwilysoedd nawr ac yn y dyfodol yng Ngogledd Orllewin Cymru.

..dylid rhoi ystyriaeth fanwl bellach ar ôl troed lleol i adnabod sut y gellir defnyddio adeiladau cyhoeddus, a thechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd yn well o fewn y gwasanaethau cyhoeddus i leihau costau, a chynnal mynediad lleol at y system gyfiawnder... credir y gellir defnyddio rhai adeiladau y mae'r Awdurdod Lleol yn berchen arnynt i'r farnwriaeth eu defnyddio mewn modd hwylus. Ar hyn o bryd mae cytundeb gyda'r farnwriaeth i alluogi gwrando ar rai Tribiwnlysoedd Budd-daliadau Lles o fewn Swyddfeydd y Cyngor. (Cyngor Sir Ynys Môn)

Nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn defnyddio swyddfeydd y cyngor ar hyn o bryd. Rydym yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio lleoliadau eraill. Ni fydd y llys yn cau nes y byddwn wedi dod o hyd i ddarpariaeth amgen sy'n addas ac yn lleol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu gwerthuso, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon Caergybi a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol ar Ynys Môn, efallai yn Llangefni.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon Caergybi. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol, a dylid symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon unwaith y bydd y gwaith galluogi angenrheidiol wedi ei gwblhau.

Daeth cyfanswm o 14 ymateb i law mewn perthynas â Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni. O'r rhain roedd:

- pedwar gan gorff sector cyhoeddus arall
- dau gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- dau gan aelodau o'r farnwriaeth
- dau gan aelodau o'r staff
- un gan ynad
- un gan bartner yn y system cyfiawnder troseddol
- un gan ddefnyddiwr proffesiynol
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, roedd un yn gefnogol i'r cynigion, roedd 11 yn gwrthwynebu ac roedd dau yn niwtral.

Mynediad at gyfiawnder

Mae tref Llangefni yng nghanol Ynys Môn, ychydig i ddwyrain yr ynys. Mae Llangefni 16 milltir i ffwrdd o Gaernarfon ac mae'r daith yn cymryd tua 20 munud mewn car. Mae gwasanaeth bws rheolaidd o Llangefni i Gaernarfon drwy Fangor. Mae'r daith o Llangefni i Gaernarfon yn cymryd oddeutu 1 awr a 15 munud ar fws. Mae'r llys yn parhau i gael ei danddefnyddio ac, er y cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys yno hefyd, nid yw ar agor bob dydd.

Nodir y dadansoddiad ar drafnidiaeth, ac er y gallai unigolyn o Amlwch gyrraedd Caernarfon i fynychu'r llys, dylid gofyn y cwestiwn a yw'r daith yn rhesymol ac a yw'n rhoi mynediad rhesymol at gyfiawnder...Mae gwrandao ar achosion yng Nghaernarfon/ Prestatyn yn gosod gofyniad teithio afresymol ar nifer o ymgyfreithwyr, a bydd yn rhwystr ymarferol ac effeithiol rhag cael mynediad at gyfiawnder. (Y Barnwr Rhanbarth Owen Williams a'r Barnwr Rhanbarth Jones-Evans)

Gallaf gofnodi yn ffeithiol, yn y gorffennol, bod teimlad lleol cryf y dylai cyfleusterau fod ar gael ar Ynys Môn ar gyfer preswylwyr Ynys Môn. (Barnwr Sifil Dynodedig ar gyfer Cymru)

Rydym yn cydnabod na ddylai'n rhaid i'r cyhoedd orfod teithio'n bell iawn na chyflawni siwrneiau anodd i ddod i wrandawiadau llys a thribiwnlys. Rydym yn deall bod cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus gwael yn Llangefni, ond bydd y newidiadau yr ydym

yn eu gwneud i'n gwasanaeth yn golygu na fydd angen i gymaint o bobl fynychu'r llys yn bersonol. Bydd defnyddio technoleg fodern, fel y gwnawn gyda llawer o wasanaethau eraill, yn gwneud cael mynediad at gyfiawnder yn haws. I'r defnyddwyr llys hynny sy'n rhagweld y cânt broblemau wrth deithio i'r llysoedd eraill, bydd y llysoedd yn ystyried ceisiadau i gynnal busnes y llys drwy ddulliau amgen lle bynnag y bo'n bosibl. Rydym wrthi'n chwilio i weld os allwn gynnig darpariaeth amgen yn Llangefni i wasanaethu Ynys Môn.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni ar gyfer 2014-15 tua £116,000. Mae'n adeilad rhestredig gradd II a godwyd yn y 1860au. Ceir ramp yn nhu blaen yr adeilad i ganiatáu mynediad ar gyfer pobl anabl ond fel arall, nid yw'r adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen gwneud gwaith cynnal a chadw dros y pum mlynedd nesaf pe na fyddai'r llys yn cau. Mae'r gwaith sy'n angenrheidiol yn cynnwys cyweirio'r to i newid y lapiad plwm, adnewyddu rhannau o'r to fflat, newid y landeri a'r pibelli dŵr glaw, ailblastro'r waliau y tu mewn, newid gorchuddion llawr a ddifrodwyd o ganlyniad i ddŵr yn dod i mewn i'r adeilad, newid y nenfydau crog mewn rhannau o'r adeilad, newid toiledau a'r gegin, a gwella'r systemau aerdymheru.

Rydym yn cytuno gyda chau Llys Sirol Llangefni gan nad yw'r adeilad yn addas i'r pwrpas ar hyn o bryd. Mae angen gwneud llawer o waith atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn dod â'r adeilad i safon, a byddai'n costio gormod i wella ac adnewyddu'r adeilad. (Staff GLITEM)

Rydym yn cytuno nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir i gynnal a chadw adeilad y llys presennol yn Llangefni. (Barnwyr Rhanbarth)

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel, sef tua 31%, ac ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llys a fydd yn derbyn y llwyth gwaith o Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni wneud hynny ar ôl ychydig o waith galluogi.

Roedd y llys sirol yn Llangefni yn destun ymgynghoriad i gau yn 2010. Y penderfyniad bryd hynny oedd na ddylid ei gau. Er hynny mae GLITEM wedi parhau i symud ei staff i llys sirol Caernarfon, a gadael i'r staff fod yn bresennol yn ystod oriau cownter ac/ neu ar gyfer eisteddiadau yn unig. Efallai bod barn gref bod hyn wedi bod yn rhan o'r penderfyniad a wnaethpwyd yn 2010. (Barnwr Sifil Dynodedig ar gyfer Cymru)

Gwneir penderfyniadau ynghylch lleoli staff yn unol â'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon y gellir trefnu'r llwyth gwaith.

Ar hyn o bryd mae saith ystafell llys wedi eu nodi ar gyfer eu cau, a bydd pedair ystafell llys yng Nghaernarfon yn cymryd eu lle. (Barnwyr Rhanbarth)

Rydym yn bwriadu adeiladu pedair ystafell llys newydd yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, i greu lleoliad gydag wyth ystafell ar gyfer cynnal gwrandawiaid. Mae Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, a fydd yn derbyn y gwaith, yn cael ei thanddefnyddio ar hyn o bryd. Felly, dim ond pedair ystafell llys newydd sydd eu hangen i gymryd y gwaith o'r llysoedd eraill, sy'n rhoi'r cyfle i greu effeithlonrwydd wrth barhau i ddarparu mynediad at gyfiawnder. Gall adeiladau mwy hwyluso rhestru achosion yn fwy

hyblyg ac effeithlon, a rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr pa bryd y gwrandewir ar eu hachos.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Cyn y gwneir penderfyniad pendant ynghylch cau llysoedd ar Ynys Môn, hoffwn awgrymu y dylid gwneud asesiad o ran y posibilrwydd o ddefnyddio'r llys yn Llangefni fel llys ynadon ar gyfer achosion troseddol yn ogystal â llys sifil/ teulu ac/neu edrych i weld os oes adeilad cyhoeddus arall ar gael yn y dref honno y gellir ei ddefnyddio fel canolfan llys cyfun. (Barnwr Llywyddol Cymru)

Byddai'n fwy effeithiol o ran y gost i gymryd yr hen lys ynadon gan y cyngor ar brydles, yn hytrach nag adleoli Canolfan Wrandawiadau Llangefni i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, lle byddai angen gwneud newidiadau sylweddol a fyddai'n costio llawer mwy. (Staff GLITEM)

Ni fyddai modd defnyddio Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni ar gyfer gwaith troseddol heb fuddsoddiad sylweddol, a fyddai'n afresymol o ran y gost. Rydym yn chwilio am gyfleusterau rhan amser i wrando achosion ar Ynys Môn. Ni fydd y llys yn cau nes y byddwn wedi dod o hyd i ddarpariaeth amgen sy'n addas ac yn lleol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu gwerthuso, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon, unwaith y canfyddir darpariaeth amgen addas sy'n lleol ar Ynys Môn.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot a symud y gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot.

Daeth cyfanswm o naw ymateb i law mewn perthynas â Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot. O'r rhain roedd:

- dau gan aelodau o'r farnwriaeth
- dau gan ynadon
- dau gan ddefnyddwyr proffesiynol
- un gan Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad
- un gan gorff sector cyhoeddus arall
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, ac roedd naw yn gwrthwynebu.

Mynediad at Gyfiawnder

Mae Castell Nedd naw milltir i ffwrdd o Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot ac mae'r daith yn cymryd oddeutu 15 munud mewn car. Mae gwasanaeth trên a gwasanaeth bws rheolaidd ac aml sy'n uniongyrchol rhwng Castell Nedd a Phort Talbot.

Er bod trefi Castell Nedd a Phort Talbot naw milltir i ffwrdd o'i gilydd yn ddaearyddol, nid yw'r ymgynghoriad yn ystyried y pellteroedd ychwanegol y mae defnyddwyr y llys yn teithio rhwng y trefi hyn. Hefyd, nid yw'r ymgynghoriad yn ystyried daearyddiaeth leol. (Ynadon Gorllewin Morgannwg)

Er bod trafndiaeth gyhoeddus o Gastell Nedd i Borth Talbot yn ymddangos yn syml, nid yw'n ystyried yr angen i gyrraedd Castell Nedd neu Bort Talbot o'r cymunedau yn y cymoedd, sef y rhan fwyaf o'r fwrdeistref sirol. Mae diffygion difrifol yn isadeiledd trafndiaeth Castell Nedd Port Talbot, sy'n golygu nad yw bysiau i/o'r cymoedd yn rhedeg yn aml ac mae amser teithio yn hir. Nid yw ychwaith yn ystyried y pellter o Orsaf Trenau a Gorsafoedd Bws ym Mhort Talbot, a fydd yn achosi problemau o ran hygyrchedd yn gyffredinol, ond yn arbennig i bobl sydd ag anableddau. (Elusen)

Bydd llwybr troed cyhoeddus newydd yn cysylltu'r Ganolfan Cyfiawnder â gorsaf drenau Port Talbot yn fuan. Rydym yn gwerthfawrogi nad oes gan rai ardaloedd yn nalgylch Castell Nedd a Phort Talbot yr un gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus uniongyrchol fel sydd rhwng y ddau le. Mewn oes o weithio'n fwy digidol, ni fydd rhaid i ddefnyddwyr fod yn bresennol mewn gwrandawiaidau yn bersonol bob amser.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot ar gyfer 2014-15 tua £278,000. Mae'r adeilad mewn cyflwr da, ond bydd angen gwaith cynnal a

chadw hanfodol i gynnal y cyflwr hwn yn ystod y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys adnewyddu gorchudd allanol y safle, rhwystr giât i gerbydau a gwaith atgyweirio'r landeri a'r peipiau.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel, sef tua 42%, ac nid yw'n cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llys a fydd yn derbyn y llwyth gwaith o Lys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot wneud hynny heb unrhyw waith galluogi.

Dim ond yn ddiweddar y gwnaethpwyd y llys hwn yn llys dynodedig ar gyfer achosion ysgaru yng Nghymru. Mae'r holl ddeisebau ysgaru yn cael eu cychwyn yno yn awr. Pam fod angen cau llys sydd yn brysur iawn ac wedi ei sefydlu i'r pwrpas hwn. (Cyfreithiwr)

Bydd y gwaith ysgaru sydd wedi'i ganoli yn symud, heb unrhyw newid, i Bort Talbot.

Mae'r cynigion yn siom fawr ar ôl y cynigion credadwy a gyflwynwyd yn flaenorol i gynyddu'r defnydd drwy symud gwaith Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot i Bort Talbot, a'r llys ynadon i ddefnyddio'r adeilad yng Nghastell Nedd, cafodd y cynnig hwn ei wrthod gan yr Ysgrifennydd Gwladol. (Aelod Seneddol)

Byddai creu dalfa yn y llys wedi bod yn rhy gostus. Mae arnom angen lleihau'r gost gyfredol ac i'r dyfodol o ran cynnal ein hystad, gan sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i ddarparu gwerth am arian i bwrs y wlad. Bydd yr elw yn dilyn gwerthu'r adeiladau dros ben yn cael ei ailfuddsoddi i wneud cyfiawnder yn fwy hygyrch i bawb.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Gallai dewisiadau amgen gynorthwyo petai modd mynd â'r rhain i'r cymunedau yn y cymoedd, ond prin iawn fydd y cyfleusterau ac adnoddau addas i alluogi hyn i ddigwydd. Rydym yn deall bod hyn yn rhan o'r cynllun mewn perthynas â chynigion blaenorol i gau llysoedd, ond nid yw wedi digwydd hyd yma. (Elusen)

Rydym yn edrych ar ffyrdd o ehangu'r ystod o dulliau amgen lle gall defnyddwyr y llys gael mynediad at y system cyfiawnder. Byddwn yn gwneud rhagor o ddefnydd o dechnoleg, gan gynnwys cynadledda fideo, ac edrych i weld pa un ai a allwn ddefnyddio adeiladau dinesig i gynnal rhai mathau o wrandawladau. Mae'r oedi o ran sefydlu cyswllt fideo yng Nghastell Nedd yn siomedig, ond nid oes amheuaeth yn ein parodrwydd a dyhead i ddarparu dulliau eraill.

Nid ydym yn credu bod y goblygiadau ymarferol o symud gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot wedi cael ei ystyried yn ddigonol. (Cymdeithas Barnwyr Cymru)

Mae'n bwysig nodi heb gyllid gan y llywodraeth, nid yw'n ymddangos bod gan y ganolfan cyfiawnder y cyfleusterau i integreiddio'r gwaith disgwylidig, sy'n cael ei gyflawni yng Nghastell Nedd a Phen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd. (Cymdeithas yr Ynadon)

Mae Canolfan Cyfiawnder Port Talbot yn adeilad mawr, ac er bod rhan sylweddol o'r adeilad wedi ei ddynodi ar gyfer gwaith gorfodaeth Gwasanaeth Llysoedd a

Thriwlynlysoedd EM, mae pum ystafell wrandawiadau a all gymryd gwaith sifil, teulu a thriwlynlys o Ben-y-bont ar Ogwr a Chastell Nedd.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot a symud y llwyth gwaith i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Sifil a Llys Teulu Castell Nedd a Phort Talbot. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Ynadon Pontypridd

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Ynadon Pontypridd a symud y gwaith i Lys Cyfun Merthyr Tudful.

Daeth cyfanswm o 14 ymateb i law mewn perthynas â Llys Ynadon Pontypridd. O'r rhain roedd:

- chwech gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- tri gan ynadon
- dau gan unigolion
- un gan ddefnyddiwr proffesiynol
- un gan gorff sector cyhoeddus arall
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, ac roedd 14 yn gwrthwynebu.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Llys Ynadon Pontypridd wedi'i leoli yn ne-ddwyrain sir Rhondda Cynon Taf. Mae'n 12 milltir i ffwrdd o Ferthyr Tudful, ac mae gwasanaeth bws a gwasanaeth trên rheolaidd. Mae cost y gwaith sy'n angenrheidiol i gynnal a chadw'r adeilad, a'r gyfradd ddefnyddio isel yn rhoi gwerth gwael am arian i'r trethdalwr.

Yn 2010, caewyd Llysoedd yn Aberdâr a Llwynypia. Y ddadl a gyflwynwyd yr adeg honno oedd mai dim ond 20 munud o siwrnai i Bontypridd oedd hi i'r rhai a oedd yn cael eu heffeithio. Mae'r ymgynghoriad hwn yn anwybyddu'n llwyr yr effeithiau cynyddol o gau Llys Pontypridd ar allu'r bobl hynny sy'n byw yn y Rhondda neu ar ochr orllewinol i etholaeth Pontypridd i gael mynediad at wasanaethau. Mae'n siwrnai ychwanegol iddynt hwy, ac ymddengys na roddwyd sylw i hyn gan ddarparwyd ffigurau o ran trafnidiaeth. Mae hyn yn sicr yn wall yn y broses asesu. (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Rhondda Cynon Taf)

Nid yw cael mynediad at gyfiawnder yn ymwneud â bod yn agos at lys yn unig. Bydd y newidiadau a wnawn i'n gwasanaeth yn golygu y bydd angen i lai o bobl ddod i'r llys yn bersonol. Bydd defnyddio technoleg fodern, fel y gwnawn gyda llawer o wasanaethau eraill, yn gwneud cael mynediad at gyfiawnder yn haws.

Lluniwyd model i asesu amseroedd teithio o bob Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) gan na fyddai'n ymarferol i gyfrifo amseroedd teithio o bob cyfeiriad unig yng Nghymru a Lloegr. Diffinnir y rhain gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) fel ardaloedd sydd â 1,000 i 2,000 o bobl gan amlaf. Felly, rydym wedi cyfrifo amseroedd teithio o ganol bob LSOA i bob llys/tribiwnlys lleol, ac wedi pwysu a mesur y rhain yn unol â data cyfrifiad 2011. Gwnaethpwyd sylwadau mewn rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad bod y dadansoddiad ar amseroedd teithio yn ystyried siwrneiau o ganol trefi i lysoedd yn unig. Nid dyna fel y mae hi - mae pob tref dan y dadansoddiad ar amseroedd teithio yn cynnwys nifer o LSOAau yn ddibynnol ar faint y dref, ac mae pob un o'r LSOAau hyn wedi eu hystyried o fewn y dadansoddiad.

Byddwn yn gwneud cais am amcangyfrif o amseroedd dilys a byddwn yn hyderus y bydd y rhain yn dangos na fydd nifer o bobl a llawer o ardaloedd yn y gymuned yn gallu cael mynediad i Ferthyr o fewn yr amseroedd a awgrymwyd yn y papur ymgynghori. (Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad)

Bydd yn rhwystro adroddiadau mewn perthynas â thrais domestig neu lle gwneir adroddiadau sy'n arwain at gyhuddiadau, bydd mwy o achosion yn chwalu os na fydd tystion neu ddiodefwyr yn mynychu neu'n gallu mynychu yn rhwydd. Mae'r awgrym mai dim ond 12 milltir i ffwrdd yw Pontypridd yn ystrydebol. O ran daearyddiaeth, mae'r rhwystrau yn sylweddol ar gyfer cyfran sylweddol o boblogaeth Rhondda Cynon Taf ac nid yw hyn wedi ei bortreadu yn y ddogfen ar effaith. (Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad)

Dylai asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n darparu cymorth cyn y gwrandawriad i ddiodefwyr a thystion ganfod unrhyw anghenion neu bryderon penodol sydd angen mynd i'r afael â hwy. Mae Llys Cyfun Merthyr Tudful yn cynnig ystod lawn o gyfleusterau i alluogi gwahanu diodefwyr a diffynyddion. Ar hyn o bryd, mae treialon mewn achosion o drais domestig wedi'u rhestru i'w cynnal o fewn tair wythnos o'r gwrandawriad cyntaf.

Mae cymunedau'r Rhondda, Taf Elái a Chwm Cynon yn ardaloedd unigryw yn hanesyddol ac yn ddiwylliannol. Mae arnynt angen ac yn haeddu llysoedd lleol, sy'n hygyrch yn lleol a chyda ynadon lleol sy'n deall yr ardal. (Aelod Seneddol ac Aelod Cynulliad)

Os bydd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru yn cael ffordd ei hun, a bod yr Awdurdodau Lleol yn cael eu haildrefnu yn dilyn ei amlinellid arfaethedig, yna efallai bydd sir newydd yn cael ei greu a fydd yn cynnwys Rhondda Cynon Taf, Merthyr a Phen-y-bont ar Ogwr. Gyda chynnig hefyd i gau Pen-y-bont ar Ogwr, byddai'n gadael sir fawr gyda dim ond un Llys Ynadon yn ei ben pellaf. (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Rhondda Cynon Taf)

Rydym yn cydnabod y byddai angen i rai pobl deithio ymhellach i gyrraedd eu llys agosaf, a gall gymryd dros awr i rai gyflawni siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. I'r mwyafrif o bobl, ni fydd cau'r llys yn cael llawer o effaith. Rydym yn ymwybodol nad oes angen i bobl fynychu llys yn aml, a'r gyfran fechan o bobl a fyddai'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd y llys. Rydym hefyd yn edrych ar ddarpariaeth amgen ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Ynadon Pontypridd ar gyfer 2014-15 tua £277,000. Er bod yr adeilad wedi cael ei ailwampio yn ddiweddar, mae gwaith cynnal a chadw dal angen ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf, gan gynnwys system awyru yn y celloedd, ailwampio'r lifft, a newid y system aerdymheru.

Mae'r ddogfen yn nodi bod gwaith ailwampio wedi ei gyflawni yn y Llys yn ddiweddar. Byddai parhau i'w gau ar ôl hyn yn golygu bod arian cyhoeddus a ddefnyddiwyd i gyflawni'r gwaith ailwampio wedi ei wastraffu. Hefyd, mae hyn yn awgrymu bod diffyg cynllunio strategol o ran gweinyddu cyfiawnder lleol. Nid oes gweledigaeth tymor hir – mae gwasanaethau'n cael eu torri i arbed arian mewn ymateb i bwysau tymor byr. (Aelod Cynulliad)

Roedd y gwaith mewn perthynas â'r adeilad ym Mhontypridd yn angenrheidiol i gynnal amgylchedd diogel i holl ddefnyddwyr y llys, ac i ganiatáu defnydd ymarferol parhaus o'r llys. Er inni wneud y buddsoddiad fel y nodir uchod, petai'r llys yn aros ar agor, ni fyddai'r costau gweithredu a'r gwariant gofynnol i gynnal y strwythur yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel, sef tua 43%, ac ni ellir cyfiawnhau cadw'r llys ar agor. Gall y llys a fydd yn derbyn y llwyth gwaith o Lys Ynadon Pontypridd wneud hynny ar ôl ychydig o waith galluogi. Byddai cyfuno'r llwyth gwaith mewn un lleoliad yn gwella effeithlonrwydd ac yn ein galluogi i wneud arbedion.

..Llys Ynadon Pontypridd yw'r unig llys ynadon sydd ar ôl yn y sir. Mae'n afresymol cael gwared ohono, a fydd yn golygu na fydd cyfleuster o'r fath yn Rhondda Cynon Taf, sef y trydydd Awdurdod Lleol mwyaf yng Nghymru o ran poblogaeth. (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Rhondda Cynon Taf)

Nid Rhondda Cynon Taf fyddai'r unig sir heb llys troseddol, ac mae nifer o enghreifftiau o hyn eisoes yng Nghymru a Lloegr.

Mae newidiadau i batrymau eistedd a threfniadau rhestru ym Mhontypridd wedi eu rhoi mewn lle i orfodi lleihad yn y defnydd a wneir o'r llys ac i'w baratoi ar gyfer cau. (Undeb Llafur PCS)

Cyflawnwyd y gwaith i ganoli achosion swmp fel rhan o gynllun cenedlaethol, ac nid oedd yn rhywbeth a wnaethpwyd yng Nghymru i leihau'r defnydd mewn unrhyw lys penodol. Bydd y Weithdrefn Un Ynad yn galluogi un ynad sy'n eistedd yn rhywle ar wahân i ystafell llys, i ddelio â'r mwyafrif o achosion traffig, achosion DVLA ac achosion trwydded teledu yn y dyfodol. Felly bydd yr angen am gapasiti ystafelloedd llys yn lleihau.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

.. peidiwch â thybio fod gan bawb fynediad at fand eang cyflym, cyfrifiadur a gwybodaeth ddigonol. Ar gyfer pobl sydd heb fynediad at y cyfleusterau hyn, a fyddai modd i chi drefnu rhyw fath o gyswllt lleol â staff ar ddyletswydd i gynorthwyo fel y gall pobl rhoi tystiolaeth ayyb, heb orfod poeni am ddiffyg technoleg. (Anhysbys)

Mae'r llywodraeth wedi datgan ei ymrwymiad i wella mynediad at y rhyngwyd ledled Cymru a Lloegr. Os defnyddir lleoliadau amgen i ddarparu mynediad at gyfiawnder, byddwn yn darparu cymorth a chynghor mewn perthynas â defnyddio'r dechnoleg berthnasol i ddefnyddwyr ryngweithio'n uniongyrchol gyda ni.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon Pontypridd a symud y llwyth gwaith i Lys Cyfun Merthyr Tudful.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon Pontypridd. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Ynadon Prestatyn

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Llys Ynadon Prestatyn a symud y gwaith troseddol i Lys Ynadon Llandudno. Bydd yr adeilad yn cael ei gadw a'i addasu i ddelio â gwaith sifil, teulu a thribiwnlys a fydd yn cael ei drosglwyddo o Lys Sifil a Llys Teulu y Rhyl. Cytunwyd i gau Llys Sifil a Llys Teulu y Rhyl dan Raglen Diwygio Ystad y Llysoedd yn 2010.

Daeth cyfanswm o 17 ymateb i law mewn perthynas â Llys Ynadon Prestatyn. O'r rhain roedd:

- pedwar gan ynadon
- tri gan gorff sector cyhoeddus arall
- tri gan Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad
- dau gan bartneriaid yn y sector cyfiawnder troseddol
- un gan aelod o'r farnwriaeth
- un gan ddefnyddiwr proffesiynol
- un gan aelod o staff
- un gan yr undeb neu grŵp staff
- un gan rywun arall

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, ac roedd 17 yn gwrthwynebu.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Llys Ynadon Prestatyn 24 milltir i ffwrdd o Landudno. Mae gwasanaeth bws a gwasanaeth trên rhwng Prestatyn a Llandudno. Ar hyn o bryd, mae Llys Ynadon Prestatyn yn gwrando ar achosion troseddol tri neu bedwar diwrnod yr wythnos.

Nid yw llys Llandudno ar y rhestr o lysoedd a gynigiwyd i'w cau ar hyn o bryd, fodd bynnag, bydd cau Prestatyn yn golygu y gwneir rhagor o ddefnydd ar adnoddau a staff yn Llandudno, a hefyd y posibilrwydd o'r angen i Ynadon ar y fainc Teulu deithio i Brestatyn. Fel y gwelwyd yn ddiweddar, mae hi wedi bod yn bosibl i'r ddwy fainc weithio yn yr un adeilad, a ni chododd unrhyw broblemau. Rydym hefyd yn bryderus iawn ynglŷn â gallu Ynadon a staff i wrando ar achosion lle mae siaradwyr Cymraeg o'n hardal yn dewis siarad yn eu hiaith gyntaf (Cymraeg), pan fyddant yn mynychu'r Llys neu adeiladau eraill y gall GLITEM eu defnyddio.
(Mainc Conwy)

Rwy'n ystyried bod yr effeithiau, megis y ffaith y byddai mynediad at gyfiawnder yn gwaethygu'n sylweddol i'r rhai hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, Cymraeg eu hiaith yn bennaf mewn rhannau o Sir Ddinbych, ac i'r rhai hynny sy'n ddefnyddwyr bregus y llys gyda bywydau anhrefnus o ardaloedd difreintiedig sydd ar fudd-daliadau neu incwm isel, yn drech o lawer nag unrhyw fanteision y mae GLITEM yn ei gael drwy symud gwaith llys ynadon o Lys Prestatyn.
(Mainc Sir Ddinbych)

Byddwn yn cau Llys Ynadon Prestatyn, ond ni fyddwn yn cael gwared â'r adeilad, yn hytrach byddwn yn newid ei ddefnydd i fod yn llys sifil, teulu a thribiwnlys. Cydnabyddir y bydd angen i rai ynadon deithio i lysoedd gwahanol oherwydd y newidiadau hyn. Pan ofynnwyd i'r meinciau weithio gyda'i gilydd yn ddiweddar, roeddem yn ddiolchgar iawn o'u hymdrechion i sicrhau nad oedd unrhyw effaith negyddol. Bydd asesiad llawn o'r effaith ar yr iaith Gymraeg, sy'n trafod ein gallu i wrando ar achosion yn Gymraeg, yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymateb i'r ymgynghoriad.

I sicrhau y cynhelir mynediad at gyfiawnder, hyd yn oed mewn ardaloedd mwy gwledig, rydym yn ymroddedig i ddarparu ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at ein gwasanaethau. Ym Mhrestatyn, efallai y bydd modd defnyddio'r cyswllt fideo presennol i'r rhai hynny na allant fynychu Llandudno.

...Nid yw'r cynigion yn gyson, ar un llaw cynigir i restru gwaith teulu mewn canolfan cyfiawnder troseddol yng Nghaernarfon, ond wedyn cynigir cau Llys Ynadon Prestatyn i'w alluogi i ddod yn ganolfan ar gyfer gwaith sifil a theulu, ond gallai fod yn ganolfan gydag awdurdodaeth gyfun, a fyddai'n rhoi mynediad gwell at gyfiawnder... mae caniatâd cynllunio eisoes wedi ei ganiatáu i greu canolfan llys cyfun ym Mhrestatyn gyda saith ystafell llys. (Undeb Llafur PCS)

Mae'r cynigion yn amrywio o ganlyniad i wahaniaethau yn ein hystad a'r lleoliadau sydd gennym yn barod. Mae'r cynnig i symud gwaith y llys ynadon o Brestatyn i Landudno, ac i symud gwaith sifil, teulu a thribiwnlys i Brestatyn ar ôl cau Llys Sifil, Llys Teulu a Thribiwnlys y Rhyl, yn gynnig sy'n ein galluogi i gynnal rhwydwaith o lysoedd yng Ngogledd Cymru, sy'n gallu darparu mynediad at gyfiawnder mewn modd mwy confensiynol i ddefnyddwyr y llys ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Llys Ynadon Prestatyn yn 2014-15 tua £169,000 ac mae hyn yn debygol o fod yn debyg i'r gost pan fydd yr adeilad yn ganolfan sifil, teulu a thribiwnlys.

Nid oes unrhyw sôn ychwaith am yr ystafelloedd gwag yn y rhan lle'r oedd yr hen orsaf heddlu (sy'n rhan o safle llys Prestatyn) a sut y caiff y rhain eu defnyddio. (Mainc Sir Ddinbych)

Gyda thair ystafell llys ar gael, mae gan adeilad Llys Prestatyn y capasiti i gynnal gwrandawriadau sifil a throseddol. (Cyngor Sir Ddinbych)

Bydd y defnydd a wneir o'r hen orsaf heddlu yn cael ei ystyried yn dilyn y ddogfen ymgynghori ac fel rhan o'n adolygiad ehangach a pharhaus o'n hystad. Byddai arnom angen greu cyfleusterau celloedd ym Mhrestatyn petawn yn parhau i ddefnyddio'r llys ar gyfer gwaith troseddol, gyda chost o dros £5 miliwn. Ni ystyriwyd hyn yn fforddiadwy nac yn werth am arian pan mae'r capasiti yn Llandudno i gyflawni'r gwaith troseddol. Mae greu llys sifil, teulu a thribiwnlys ym Mhrestatyn yn darparu gwell gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn ein galluogi i gau Llys Sifil a Llys Teulu y Rhyl.

Effeithlonrwydd gweithredol

Mae'r gyfradd defnyddio ar hyn o bryd yn isel sef tua 39%, a gall Llys Ynadon Llandudno dderbyn y llwyth gwaith heb orfod cyflawni unrhyw waith galluogi. Byddai cyfuno'r llwyth gwaith mewn un lleoliad yn gwella effeithiolrwydd ac yn ein galluogi i wneud arbedion.

Mae'r ffigur sy'n nodi bod cyfradd defnyddio'r llys yn 30% o'r capasiti yn unig yn ystod 2014-15 yn ddadleuol gan rwy'n ymwybodol bod y llys ar gau yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer cyflawni gwaith cynnal a chadw. Felly nid yw'r ffigur hwn yn dangos unrhyw beth, a hoffwn weld rhagor o wybodaeth ynghylch sut y cafodd hyn ei fesur... mae ystafelloedd llys llawer mwy addas ym Mhrestatyn, sy'n fwy priodol ar gyfer treialon troseddol. Unwaith eto, gan gadw hyn mewn cof, nid oes dadansoddiad o ran faint fyddai'r gost i sicrhau bod Prestatyn yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. (Cyngorwyr)

Dywedwyd wrth y fainc na roddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod Llys Prestatyn wedi bod ar gau am 3 mis yn ystod y cyfnod perthnasol yn y ffigurau a nodir yn yr ymgynghoriad. Mae hyn yn wall sylweddol... yn ystod... y cyfnod yr oedd y llys ar gau, nid oedd Llys Llandudno yn gallu delio â'r holl waith o'r llys ynadon. Bydd effeithiau niweidiol pellach ar ardaloedd gwledig a siaradwyr Cymraeg, a byddai'r ynadaeth yn anghybwys gan mai ynadon o ardaloedd trefol fyddai'r mwyafrif o gyfansoddiad y fainc. (Cymdeithas yr Ynadon)

Mae'n gywir bod y data defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2014-15 yn cynnwys cyfnod o dri mis pan nad oedd modd rhestru gwrandawiadau ym Mhrestatyn. Ymddiheurwn am beidio â nodi hyn yn glir yn y ddogfen ymgynghori. Gan ystyried y data hwn, dylai'r gyfradd defnyddio ar gyfer y cyfnod a nodwyd fod wedi bod tua 39%.

Ni ddylai Sir Ddinbych fod heb yr un llys troseddol. (Mainc Sir Ddinbych)

Nid Sir Ddinbych fyddai'r unig sir heb lys troseddol, ac mae nifer o enghreifftiau o hyn eisoes mewn ardaloedd eraill.

Ni ellir cyfiawnhau symud pob gwrandawriad sifil/ teulu o Landudno. (Barnwyr Rhanbarth)

Fel rhan o'r cynllun gweithredu manwl, byddwn yn ystyried y ffordd orau o ddsbarthu'r gwaith yn awr, gan drafod â'r farnwriaeth mewn perthynas â threfniadau rhestru.

Nid wyf yn gwrthwynebu i Lys Ynadon Llandudno dderbyn y gwaith troseddol o ganlyniad i newid Llys Ynadon Prestatyn i ddod yn ganolfan ar gyfer gwaith sifil/teulu. (Barnwr Llywyddol Cymru)

.. rwy'n cytuno nad yw Llys Sifil a Llys Teulu y Rhyl yn addas i'r pwrpas. Rwy'n cefnogi'r cynnig arfaethedig i symud i gyfleusterau newydd a gwell ym Mhrestatyn. (Barnwr Sifil Dynodedig ar gyfer Cymru)

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Efallai y bydd modd defnyddio'r cyfleuster cynadledda fideo presennol ym Mhrestatyn, drwy drefniant ymlaen llaw, i ddarparu mynediad i'r defnyddwyr hynny na allant deithio i Landudno i fynychu gwrandawiadau troseddol.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Llys Ynadon Prestatyn a symud y gwaith troseddol i Lys Ynadon Llandudno. Bydd yr

adeilad wedyn yn cael ei addasu i ddelio â gwaith sifil, teulu a thriwlynlys a fydd yn cael ei drosglwyddo o Lys Sifil a Llys Teulu y Rhyl.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Llys Ynadon Prestatyn. Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Canolfan Wrandawiadau a Thriwlynlys Wrecsam (Rhyd Broughton)

Mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu y dylid cau Canolfan Wrandawiadau a Thriwlynlys Wrecsam (Rhyd Broughton) a symud y gwaith i Lysoedd Barn Wrecsam a Llysoedd Barn yr Wyddgrug.

Daeth cyfanswm o dri ymateb i law mewn perthynas â Chanolfan Wrandawiadau a Thriwlynlys Wrecsam (Rhyd Broughton). O'r rhain roedd:

- dau gan aelodau o'r farnwriaeth
- un gan yr undeb neu grŵp staff

O'r ymatebion hyn, nid oedd yr un yn gefnogol i'r cynigion, ac roedd tri yn gwrthwynebu.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) ddwy filltir i ffwrdd o adeilad Llysoedd Barn Wrecsam ym Modhyfryd, Wrecsam. Mae'r llys ym Modhyfryd mewn lleoliad mwy canolog na'r safle yn Rhyd Broughton.

Mae Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) 11 milltir i ffwrdd o Lysoedd Barn yr Wyddgrug ac mae'r daith yn cymryd oddeutu 25 munud mewn car.

Nid oes cyswllt rheilffordd rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug, ond mae cyswllt bws rheolaidd ar gael.

Gwerth am arian

Roedd costau gweithredu Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) tua £197,000 ar gyfer 2014-15. Yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n berchen ar yr adeilad ac mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn ei rentu ar brydles. Mae'r adeilad tribiwnlys yn cynnwys tair ystafell wrandawiadau, un ystafell feddygol ac un ystafell ymneilltuo i'r farnwriaeth. Mae'r manau aros yn fach.

Er bod yr adeilad yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'r cyfleusterau sydd ar gael yn yr adeilad yn wael. Nid oes cyfleusterau cyswllt fideo ar gael i ddefnyddwyr. Mae angen gwella trefniadau diogelwch yn y tribiwnlys. Dim ond drwy'r ardaloedd cyhoeddus y gall y staff a'r farnwriaeth fynd i mewn i'r llys ac nid yw'n bosib i staff na swyddogion diogelwch weld y mynedfeydd i rai o'r ystafelloedd llys.

Mae arnom angen lleihau cost ein hystad ac ailfuddsoddi'r arbedion. Roedd y gwaith ailwampio blaenorol a wnaethpwyd i'r llys hwn yn ofynnol yn dilyn adroddiad iechyd a diogelwch a oedd wedi amlygu rhai manau lle'r oedd angen gwaith. Mae'r llysoedd a fydd yn derbyn y gwaith yn agos. Mae eu maint, eu cyflwr da, a'r ffaith eu bod yn cael eu tanddefnyddio yn cyfiawnhau cau'r ganolfan hon.

Effeithlonrwydd gweithredol

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2014-15, roedd cyfradd ddefnyddio Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) tua 12% o'r capasiti.

Bydd cau lleoliad triwlynlys yn Wrecsam yn golygu y byddwn yn colli tair ystafell wrandawiadau triwlynlys ac ystafell feddygol, ac ni fydd capasiti newydd yn cael ei ddarparu ym Mhrestatyn (dim ond y tair ystafell llys presennol). Rydym o'r farn y bydd y prinder ystafelloedd wrandawiadau yn broblem wirioneddol a chynyddol ar draws Gogledd Cymru, oni bai y darperir ystafelloedd wrandawiadau ychwanegol i wneud iawn â'r diffyg. (Cymdeithas Barnwyr Cymru)

Fel y nodir uchod, mae'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn defnyddio adeilad y Llys Sirol a'r Llys Ynadon yn Wrecsam. Mae'n adeilad llys addas i'r pwrpas gyda chyfleusterau eithaf sylfaenol ac yn gyffredinol does dim digon o fannau parcio i'r farnwriaeth ac aelodau. Fodd bynnag, mae'n gwneud y tro. Mae'n bosibl i'r triwlynlys gynnal gwrandawiadau aml-ddiwrnod yn yr adeilad hwn, sy'n cael ei glercio gan staff y Llys Sirol sydd yn yr adeilad yn barod, sy'n ddefnyddiol. (Barnwr Rhanbarthol y Tribiwnlys)

Er nad oes gwrthwynebiad i'w gau mewn egwyddor, mae angen sicrhad y bydd gan y Barnwr Rhanbarth preswyl ystafell yn y llys hwnnw os symudir i Lysoedd Barn Wrecsam. Hefyd, bydd angen sicrhad y bydd digon o ystafelloedd ar gael i gynnal gwrandawiadau Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant, yn arbennig os yw'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn archebu Llys 6 ar gyfer y 3 wythnos gyntaf ym mhob mis. Yr adeilad yn Wrecsam Rhyd Broughton yw'r unig le ar gyfer gwrandawio ar apeliadau Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. Mae ystafell feddygol yno, a bydd angen y ddarpariaeth hon yn y Llysoedd Barn. Hefyd, bydd angen cyfleusterau ar gyfer gwrandawiadau cynhaliath cynnal plant, sef man aros ar wahân. Cynhaliwyd 691 sesiwn yn 2014-15; 151 yn 2014-15. Mae cael presenoldeb yn Wrecsam yn well na'r Wyddgrug oherwydd bod Wrecsam yn gwasanaethu ardaloedd anghysbell, tra bod y pellter rhwng yr Wyddgrug a Phrestatyn yn llai. (Barnwr Rhanbarthol y Tribiwnlys)

Rydym wedi dadansoddi'r llwyth gwaith cyfredol a'r llwyth gwaith a ragwelir, ac yn fodlon bod gan ein hystad sydd ar ôl y capasiti i ddelio â gwaith y triwlynlys.

Dulliau amgen o ddarparu gwasanaethau

Gan ystyried bod Llysoedd Barn Wrecsam a Llysoedd Barn yr Wyddgrug yn agos, nid ydym yn ystyried bod angen darpariaethau amgen.

Penderfyniad

Mae'r holl bwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad wedi cael eu dadansoddi'n llawn, ac yn dilyn ystyriaeth ofalus, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi penderfynu cau Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) a symud y llwyth gwaith i Lysoedd Barn Wrecsam a Llysoedd Barn yr Wyddgrug.

Gweithredu

Mae angen ystyried nifer o ffactorau cyn y gellir cau Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton). Mae amserlen amlinellol ar gyfer gweithredu ynghlwm wrth y ddogfen hon. Sylwch fod yr amserlen hon yn agored i'w newid fel y mae'r rhaglen yn symud ymlaen.

Llys Sifil a Llys Teulu Conwy a Bae Colwyn

Nodwn fod y dogfennau ymgynghori yn nodi'r bwriad i gau awdurdodaeth y Llys Sirol yn Llys Sifil a Llys Teulu Conwy a Cholwyn. Disgrifir hwn fel mesur gweinyddol oherwydd nid yw'r Llys Sirol yn eistedd yma, ac nid yw wedi eistedd yma ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae'n gyffredin i'r teuluoedd yr ydym yn eu helpu i fynychu achosion meddiant yn adeilad y llys yn Llandudno. Felly, bydd cau'r awdurdodaeth hon yn effeithio ar bobl ac nid yw'n weinyddol yn unig. Sylwn nad yw'r cynnig hwn wedi'i restru ar y rhestr o lysoedd i gau yn yr ymgynghoriad, ac felly, ni chynhaliwyd asesiad o effaith penodol yr un fath â'r llysoedd eraill ar y rhestr, o ran amseroedd teithio a chostau. Byddwn yn awgrymu i hyn gael ei gywiro. (Shelter Cymru)

Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y bydd cau awdurdodaeth Llys Sirol Conwy a Cholwyn yn effeithio ar gymunedau yn ne Conwy, a byddai'n golygu bod pobl sy'n mynychu Llys Sirol a Llys Teulu Conwy a Cholwyn yn Llandudno ar hyn o bryd yn gorfod teithio'n bell i fynychu'r llys ym Mhrestatyn. (Llywodraeth Cymru)

Mae enw Llys Sifil a Llys Teulu Conwy a Cholwyn yn cyfeirio at awdurdodaeth yr adeilad llys blaenorol ym Mae Colwyn, sydd wedi cau. Nid ydym yn bwriadu rhoi'r gorau i restru achosion sifil a theulu yn gyfan gwbl yn Llandudno. Bydd Prestatyn, a fydd yn ganolfan ar gyfer gwaith sifil, teulu a thriwlynlys yng nghanol Gogledd Cymru, yn rhestru gwrandawriadau yn unol â phenderfyniadau barnwrol a fydd yn bodloni anghenion y defnyddwyr yn y ffordd orau.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyirff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Atodiad A – Rhestr o ymatebwyr

Yn ychwanegol i'r 19 aelod o'r cyhoedd a ymatebodd i'r ymgynghoriad, ymatebodd yr unigolion a'r sefydliadau a enwir isod hefyd:

Cyngor Cymuned Aberdyfi	Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion Meinciau Cymru
Albert Owen, Aelod Seneddol, Ynys Môn	
Siambrau Angel, Abertawe	Comisiynydd Plant Cymru
Ann Jones, Aelod Cynulliad, Dyffryn Clwyd	Chris Davies, Aelod Seneddol, Brycheiniog a Sir Faesyfed
Bargyfreithwyr yn Siambrau Iscoed, Abertawe	Christine Chapman, Aelod Cynulliad, Cwm Cynon
Bethan Jenkins, Aelod Cynulliad, Gorllewin De Cymru	Canolfan Cyngor ar Bopeth
Tenantiaid Blackmill a Glynogwr a'r Gymdeithas Preswylwyr	Cyngor Cymuned Coety Uchaf
Cadeirydd Mainc Brycheiniog a Sir Faesyfed	Pwyllgor Gweinyddu Cyfiawnder a'r Tribiwnlysoedd, Llywodraeth Cymru
Cyngor Tref Aberhonddu	Materion Cyfansoddiadol a Chysylltiadau Rhynglywodraethol, Llywodraeth Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Cynghorydd Sir, Prestatyn (Ward Gogledd)
Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr	Darren Millar, Aelod Cynulliad, Gorllewin Clwyd
Cyngor Tref Caerfyrddin	Cadeirydd Etholedig Mainc Sir Ddinbych
Carwyn Jones, Aelod Cynulliad, Pen-y- bont ar Ogwr a Phrif Weinidog Llywodraeth Cymru	Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Cymuned Cefn Cribwr	Cadeirydd Mainc Sir Ddinbych
Canolfan Materion Cyfreithiol Cymru, Prifysgol Aberystwyth	Y Barnwr Rhanbarth Godwin, ar ran Cymdeithas Barnwyr Cymru.
Cadeirydd Mainc Ynadon Ceredigion a Sir Benfro	Y Barnwr Rhanbarth James a'l Hanrhydedd y Barnwr Edwards, Barnwyr Cyswllt yr Iaith Gymraeg
Cadeirydd Cymdeithas yr Ynadon Dyfed	Y Barnwr Rhanbarth Jones-Evans
	Y Barnwr Rhanbarth Parsons

Y Barnwr Rhanbarth Williams

Cyngor Tref Dolgellau

G4S

Cyfreithwyr Gamlins LLP wedi cyfuno â
Hywel Davies a'i Gwmni

GEOAmev UK Ltd - Gwasanaeth
Hebrwng Carcharorion i'r Ddalfa

Cadeirydd Mainc Cymoedd Morgannwg

Cyngor Gwynedd

Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd

Cadeirydd Mainc Ynadon Gwynedd

EA y Barnwr Seys-Llewellyn CF, Barnwr
Sifil Dynodedig ar gyfer Cymru

EA y Barnwr Thomas, Barnwr Preswyl ar
ran Barnwriaeth Llys y Goron Abertawe.

EA y Barnwr Twomlow, Barnwr
Cylchdaith

Staff GLITEM

Huw Irranca Davies, Aelod Seneddol
Ogwr

Cyngor Sir Ynys Môn

Cadeirydd Mainc Ynadon Ynys Môn

James Davies, Aelod Seneddol ar gyfer
Dyffryn Clwyd

Jane Hutt, Aelod Cynulliad, Bro
Morgannwg a Gweinidog Llywodraeth
Cymru dros Gyllid a Busnes y
Llywodraeth

Janice Gregory, Aelod Cynulliad, Ogwr a
Phrif Chwip Llywodraeth Cymru

Cyfreithwyr JCP

Jonathan Edwards, Aelod Seneddol,
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Y Barnwr Harper, Barnwr Cyflogaeth
Rhanbarthol dros dro

Kirsty Williams, Aelod Cynulliad,
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Leanne Wood, Aelod Cynulliad, Canol
De Cymru ac Arweinydd Plaid Cymru.

Sefydliad Cymru'r Gyfraith

Leighton Andrews, Aelod Cynulliad,
Rhondda a Gweinidog Gwasanaethau
Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru

Liz Saville Roberts, Aelod Seneddol,
Dwyfor Meirionnydd

Cyngor Cymuned Llanbedr

Bargyfreithwyr lleol

Newyddiadurwyr lleol

Ynadon lleol

Cyfreithwyr lleol

Madeleine Moon, Aelod Seneddol,
Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Tref Maesteg

Aelod o'r Pwyllgor Cyhoeddus

Sefydliad y Merched, Caernarfon,
Gwynedd

Mick Antoniw, Aelod Cynulliad,
Pontypridd

Cymdeithas y Cyfreithwyr, Canolbarth
Cymru

Cymdeithas Gorfforedig Cyfreithwyr Sir
Fynwy

Mrs Ustus Nicola Davies, Barnwr
Llywyddol Cylchdaith Cymru

Mr Ustus Wyn Williams, Barnwr
Llywyddol Cylchdaith Cymru

Cyngor Castell Nedd Port Talbot ar gyfer
Gwasanaeth Gwirfoddol

Gohebydd papur newydd

Heddlu Gogledd Cymru

Owen Smith, Aelod Seneddol,
Pontypridd

Paul Lewis CF, Arweinydd Cylchdaith
Cymru a Chaer

Peter Black, Aelod Cynulliad, Gorllewin
De Cymru

Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed
Powys

Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Gogledd Cymru

Cyngor Tref Porthcawl

Cyngor Sir Powys

Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a
Masnachol (PCS)

Edward Hughes, Quality Solicitors

Rhodri Glyn Thomas, Aelod Cynulliad,
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon
Taf

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Rhondda Cynon Taf

Rhun Ap Iorwerth, Aelod Cynulliad, Ynys
Môn

Sedgwick Chudleigh, McKenna Solicitors

Simon Thomas, Aelod Cynulliad,
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Stephen Crabb, Aelod Seneddol, Preseli
Sir Benfro, ac Ysgrifennydd Gwladol
Cymru

Stephen Kinnock, Aelod Seneddol,
Aberafan

Suzi Davies, Aelod Cynulliad, Gorllewin
De Cymru

T. R. Evans, Hughes & Co

Cyngor Cymuned Trearddur

Cymdeithas Barnwyr Rhan Amser y DU

Cyngor Undebau Llafur Dyffryn Clwyd

Comisiynydd y Gymraeg



©Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisiâu Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd arnoch angen caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill drwy wneud cais i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder (gweler uchod i gael manylion cyswllt).